YR

YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

RHIF. 57.] MEDI, 1863. [AIL GYFRES.

CYNNWYSIAD.

TUDAL.

Pregeth a draddodwyd gan y Parch. Owen Evans, Coedycymmer, yng Nghyfarfod Blynyddol yr Undodiaid, yng Nghapel-y-groes, Ceredigion, dydd Iau, y 25ain o Fehefin, 1863 197

Ffydd Gadwedigol—Sylwadau y Parch. Wm. Thomas ar Lythyr Dr. Lloyd yn Rhifyn Gorphenaf (gorpheniad o tudal. 193) 209

Bedd argraff Iolo Morganwg 212

Cariad a Chyfiawnder Duw 212

Joguth Chunder Gangooly 213

GOHEBIAETHAU—

Cyfarfod Cwarterol yn Onnenfawr 217

Gair ar Ba beth yw Cristion? 217

Y Sabbath 217

Gwelliant Gwallau 218

HANESION CARTREFOL A THRAMOR—

Y Wladwriaeth 218

Y Cyfandir—Poland 218

Germany 218

America 219

PRIODAS—Mr. David Davies a Miss Elinor Jones 219

MARWOLAETHAU—Richard Howells, Rees Davies, a John Michael .. 219

BARDDONIAETH—

Fy Mam 220

Penillion 220

Epigram i'w ddodi ar gauad blwch Tobacco 220

Penybont:

ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.

[PRIS 3c.—TRWY Y POST, 4c.]

YR YMOFYNYDD.

RHIF. 57.] MEDI, 1863. [AIL GYFRES.

PREGETH

A draddodwyd gan y Parch. Owen Evans, Coedycymmer, yng Nghyfarfod Blynyddol yr Undodiaid, yng Nghapel y Groes, Ceredigion, dydd Iau y 25ain o Fehefin, 1863.

RHUF. x. 6—9.—"Eithr y mae y cyfiawnder sydd o ffydd yn dywedyd fel hyn: Na ddywed yn dy galon, Pwy a esgyn i'r nefoedd? (hynny yw dwyn Crist i waered oddiuchod): Neu pwy a ddisgyn i'r dyfnder? (hynny yw, dwyn Crist drachefn i fynu oddiwrth y meirw.) Eithr pa beth y mae efe yn ei ddywedyd? Mae y gair yn agos attat, yn dy enau, ac yn dy galon; hwn yw gair y ffydd, yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu; mai os cyffesi a'th enau yr Arglwydd Iesu, *(neu fod yr Iesu yn Arglwydd)*, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi."

MEDDWL yr Apostol, yn eithaf tebyg, yw hyn: yr athrawiaeth Grist'nogol yw hon. Na fydded i ti ddisgwyl mwy am ddyfodiad y Messiah addawedig, fel pe byddai heb ddyfod; canys y mae efe *wedi* ymddangos, a chenadwri ddwyfol ganddo, a phrofion dwyfol drosti: ac na fydded i ti ameu nad yw ef 'nawr yn fyw; eithr os cyffesi â'th enau fod yr Iesu yn Arglwydd: mai efe yw'r Messiah addawedig, enneiniog Duw, anfonedig y nef i ddysgu, cyfarwyddo, a thrwy hyny sancteiddio dynolryw; a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig y fyddi.

Esboniad Rosenmüller sydd debyg i hyn: "Na fydded i ti feddwl pwy a esgyn i'r nef, hynny yw, dwyn Crist i waered. Y meddwl yw, Nid yw athrawiaeth Crist ddim yn anhawdd ei deall a'i chredu; nid oes achos ymofyn am adnabyddiaeth o honi o'r nefoedd, nac o uffern neu'r bedd. Y mae ei gwirionedd a'i sicrwydd yn cymmeradwyo eu hunain i bob dyn diragfarn. Y mae'r gair yn agos attat, yn dy enau. Yr hyn sydd agos attom sydd hawdd ei adnabod: y mae'r apostol yn awr yn gosod allan yn gadarnhaol yr hyn a wnaeth yn naccaol, yn yr adnod o'r blaen. Y mae adnabyddiaeth o'r athrawiaeth nefol yn hawdd, wedi ei chadarnhau i ti gan y profion mwyaf cedyrn fel nas gelli ameu ei gwirionedd, ac os cyffesi a'th enau fod yr Iesu yn Arglwydd, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig y fyddi. Y mae yn son am adgyfodiad Crist, oblegid fod hynny y prawf cadarnaf i ddangos mai efe yw ein Hiachawdwr ni. Gan hynny ni wnaiff yr hwn sydd wedi ei argyhoeddi o hyn byth mwy glodfori aberthau a gweithredoedd eraill y gyfraith fel y cynorthwyon penaf i gyrhaedd iechydwriaeth dragywyddol, ac nid ymffrostia yn eu cyflawniad fel yn cynnwys un haeddiant o honynt eu hunain." Felly Rosenmüller.

Y mae'r Apostol yn y llythyr hwn yn hoff o gydmaru ffydd a gweithredoedd y gyfraith a'u gilydd: y mae'n derchafu un ar draul y llall; y mae

ffydd yn cael ei chyfodi i'r làn ; gweithredoedd y gyfraith yn cael eu taflu i lawr ganddo. Ond dylid sylwi mai'r gweithredoedd sydd yn gwahaniaethu yr Iuddew oddiwrth y Groegwr y mae ef yn ddibrisio, ac nid gweithredoedd da. Nid oedd bossibl bod yn Iuddew heb enwaedu ; mynnai yr Iuddewon Crist'nogol enwaedu'r cenhedl-ddyn, neu ei gollfarnu. Mynnai Paul ohono yntau enwaedu'r galon trwy ei dwyn i gredu yn adgyfodiad yr Iesu, byd i ddyfod, a barn gywir i ganlyn. Nid yw cyfiawnder y ddeddf o un gwerth, medd Paul ; ni all un cnawd gael ei gyfiawnhau trwyddo ; y mae'n gosod cyfiawnder arall, cyfiawnder sylweddol yn ei le ; sef y cyfiawnder sydd o ffydd ; yr hwn y mae ffydd yn ei gynnyrch ; ffydd yn yr hwn a gyfododd Iesu o feirw, yr hwn a'n cyfyd ninnau hefyd ; cyfiawnder gwirioneddol yn lle'r ffugiol ; cyfiawnder yngolwg y farn, yn swn y barnwr ; yr un cyfiawnder ag oedd yng Nghrist ei hun, yn cael ei gymmell gan yr un annogaethau, a'i feithrin gan yr un grediniaeth ag oedd ynddo yntau.

Os cyffesi a'th enau fod yr Iesu yn Arglwydd, yn athraw i'th ddysgu, i'th gyfarwyddo, i'th lywodraethu yn hollol, yn dy holl feddyliau, dy eiriau, a'th weithredoedd :—os gwnai gyffes gyhoeddus o hyn yngwyneb profedigaethau, erledigaethau, a marwolaeth ; a chredu yn dy galon i Dduw gyfodi'r Iesu hwn o feirw, ac felly fod byd i ddyfod ar dy gyfer, a barn gywir i gymmeryd lle, nes gwneyd dy holl fywyd yn esboniad teg o'th gredo, cadwedig y fyddi : o ïe, cadwedig *y fyddi.* Pa un a oes cadwedigaeth yn rhyw le arall ai peidio sydd amheüus, y *mae* hi yma ; y mae hyn yn sicr : ac ni fyn y gwir Gristion sydd wedi gweled hyn ddim cellwair â'i gadwedigaeth ei hun, nac eiddo eraill trwy freuddwydio am gadwedigaeth yn rhyw le arall, neu ymhob man. Ni fyddai hyn iddo ef ond newid sicrwydd am yr hyn sydd bossibl ar y goreu ; newid goleuni'r haul am lewyrch seren ; neu yn hytrach newid dydd am nos. Hyn nis gwna : y mae'r peth yn ormod pwys i gellwair ag ef yn y modd hyn. Cadwedig *y fyddi.* Nid oes yma un amheuaeth yn y mesur lleiaf. Cadwedig *y fyddi ;* nid mae'n bossibl i ti fod yn gadwedig. Y mae'r blaenaf yn nerth mewn gwendid ; yn gyssur mewn cyfyngder ; yn gymmorth mewn caledi ; yn ymborth i rinwedd ; yn angeu i bechod ; yn fywyd yn angeu : tra y mae'r olaf, sef fod digon o ffydd gan bob dyn i wneuthur crefydd yn bossibl iddo, fel *dose* o opium, yn marweiddio'r teimladau a phob ymdrech i gyrhaedd adnabyddiaeth o'r gwirionedd, ac yn peri i'r dyn syfrdanu a meddwl y gall fod yn eithaf diogel, pan o *bossibl* yn nghanol ei berygl : ac y mae'n ddigon *possibl* y gall gael teimlo ei ddolur etto. Pa un a all athrawiaeth o'r fath hyn achub un dyn, efallai y caiff hyn ran o'n sylw cyn diweddu. Gan fod sicrwydd am gadwedigaeth i gael, gwell o lawer yw chwilio am dani lle y *mae* i'w chael, na lle y mae'n *bossibl* ei bod, ond y *gall* hefyd beidio bod yno. Gan hynny gadawn y *possibl* ac awn yn awr at y *sicr.*

I. Ammodau'r gadwedigaeth yma.

II. Nattur a helaethrwydd y gadwedigaeth hon.

I. Ammodau'r gadwedigaeth yn y testun.

Y mae fy rhaniadau yn eithaf apostolaidd, os nid y mwyaf natturiol.

Pe byddai gan apostol Iesu Grist awdurdod ar bob un yn y cyfarfod hwn, nî fyddai eisiau rhagor na darllen y testun i sicrhau cydsyniad pob gwrandawr sydd yma heddyw. A chofiwn mai un sydd wedi teimlo gwerth y gwirionedd a ysgrifenodd, un wedi cael ei gynnal mewn erledigaethau ; wedi ei ddal i fynu ganddo dan y gwialenodau ; un wedi ymadael a phob

peth oedd yn anwyl ganddo yn y byd hwn er ei fwyn, ac yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled mewn cydmariaeth i ardderchawgrwydd gwybodaeth Iesu Grist ei Arglwydd; mai hwn, meddaf, sydd wedi ysgrifenu'r ammodau a'r gadwedigaeth sydd ynglyn a hwynt, â'i law ei hun.

1. Yr ammod gyntaf yw cyffesu â'r genau, canad beth fo'r canlyniad, ai rhyddid neu garchar; llonyddwch neu erledigaeth; bywyd neu angeu fyddo'r canlyniad o hynny. Cyffesu â'r genau, pe na chai'r tafod lefaru gair byth ar ol hynny, fod Iesu yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad; ïe, fod *Duw* "wedi gwneuthur yn *Arglwydd ac yn Grist* yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi."

Yr oedd cyffesu â'r genau yngwyneb erledigaeth yn dangos cywirdeb y galon ar yr un pryd. Credu a chyffesu fod Iesu, y gwr cynnefin a dolur, tlawd ei amgylchiadau, ond cyfoethog o râs a gwirionedd, yn Arglwydd ac yn Grist, yn Anfonedig y nefoedd; wedi ei enneinio ag olew gorfoledd tuhwnt i'w gyfeillion; wedi derbyn yr Yspryd tuhwnt i fesur: dyma un o'r ammodau, ïe, o ammodau cadwedigaeth, ac y mae'n llawn o'r canlyniadau mwyaf dedwydd.

Os yw'r Iesu yn Arglwydd i chwi a minnau, efe yw'r Athraw ac nid neb arall; ac y mae ef yn eithaf digon; ac os digon, yna y mae ei holl athrawiaethau yn cael eu derbyn; ei garacter, ei efelychu; a'r oll o'i grefydd anwyl yn cael ei derbyn i dir da'r galon.

Os Arglwydd; y mae undod a thadoldeb cyffredinol Jehovah yn dyfod yn athrawiaeth sylfaenol ein crefydd ni, canad beth fyddo mawredd byd yn bleidio: pa un ai eilunaddoliaeth dan enw Crist'nogrwydd neu dan enw doethion Groeg a Rhufain; un Duw, a hwnw'n Dad graslawn a thrugarog holl deulu dyn, yw gwrthrych teilwng addoliad y gwir Gristion fel ei feistr a'i athraw o'i flaen. Y mae'n myned at yr Iesu ac nid Plato i gael ei arwain; at yr Iesu ac nid Socrates i gael ei achub, ac nid rhaid iddo gywilyddio. Oblegid

Yn ysgol yr Iesu y mae'n cael ei ddysgu i weddio, gan ddywedyd, "Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd." *Ein* Tad, sylwch, ac nid *fy* Nhad yw iaith y Cristion wrth annerch ei Dduw a'i Grëwr Mawr mewn gweddi. Tad pawb, heb un gwahaniaeth; ïe, *ein* Tad. O'r fath drysorau sydd yn dyfod i'r golwg yma! Un ynni mawr o gariad a daioni, yn treiddio trwy yr holl fydyssawd; yn arfaethu, yn trefnu, yn cyflawni yr hyn sydd oreu dan bob amgylchiad ymhob man. Beth wyf yn ganfod yma! Un frawdoliaeth gyffredinol yn gwawrio ar holl blant Adda'u gyd. Y dû a'r gwyn, y caeth a'r rhydd, yr Iuddew a'r Groegwr wedi colli eu gwahaniaeth; wedi lladd cenfigen; wedi darnio'r cleddyf; wedi alltudio rhyfel; ac oll yn ddiwahaniaeth ynghol cariad y nef, yn rhwymyn tangnefedd a brawdgarwch, yn un dyrfa fawr nas gellir eu rhifo, yn syrthio i lawr gerbron eu Crëwr Mawr i lefain Abba, Dad, o'i flaen! Ac wedi cyfodi oddiar eu gliniau, wedi bod yn cyfeillachu a'r goreu, y doethaf, y tyneraf, y mae'r *gwlad*-garwr yn troi'n *ddyn*-garwr, a'i fonwes yn orlawn o gariad at ddyn, o awydd i'w achub. Ac yn hyn, nid bach yw'r cymmorth y mae'n gael yn esiampl ei Arglwydd, ei Athraw. Y mae'n gweled fod yr Iesu yn addoli yr un Duw ag yntau, ac yn nerth ei weddi yn myned oddiamgylch gan wneuthur daioni yn ddiorphwys; felly hefyd y dysgybl—yngoleuni tambaid athrawiaeth ac esiampl ei Feistr y mae'n myned gydag ef droed ymhwll ag yntau, heb ofni'r can-

lyniad, nac amheu dim o'r pen draw. Ynghol anfeidrol allu, cariad, a doethineb y mae'n dawel; yn ochr yr Iesu y mae'n ddiogel. Deued a ddelo nid ofna niweid.

Yngoleuni gwirionedd ac esiampl yr Iesu, ei Arglwydd, ei Athraw, y mae'n cael goleuni newydd, addysg eglur, sicrwydd pendant, ar lywodraeth gyffredinol, ddiysgog a pharhaus ei Dad nefol, ei Gyfaill anwylaf, dros holl amgylchiadau ei fywyd; holl wallt ei ben yn gyfrifedig ganddo; dim digwyddiad yn bod; sicrwydd hollol yw'r cwbl oll. Nid yw adfyd mwy na hawddfyd; tristwch mwy na llawenydd; iechyd mwy nag afiechyd; angeu mwy na bywyd; ddim ond effeithiau tragywyddol gariad, yn dwyn oddiamgylch ei amcanion dan gyfarwyddid anfeidrol ddoethineb, yn y modd goreu possibl. Cawn weled hyn heb fod yn hir, fel y canodd yr hen brydydd o Forganwg.

"Daw dydd a brawf na chefaist gam,
Cai weled pam yn hollol."

Y fath dawelwch meddwl, y fath ymddarostyngiad hollol i lywodraeth y goruchel Dad sydd yn cael ei feithrin gan y teimlad hyfryd ei fod ef wrth y llyw, ac nad aiff hi ddim yn llongddrylliad! Yma etto y cawn esiampl yr Iesu yn taflu goleu ysplenydd ar yr athrawiaeth a ddysgai. Dan lywodraeth ei Dad yr oedd yn fwy dedwydd na neb yn ei oes. Heb le i osod ei ben i lawr; yn llwmach na'r llwynog a'r aderyn, er hynny boddlon oedd ef. Os nad oedd ganddo glustog esmwyth i orphwys ei ben arno, yr oedd ganddo law dyner Tad i'w ymddiffyn, ac yr oedd hynny 'n ddigon, eithaf digon. "Dy ewyllys di, O Dad, a wneler," oedd ei iaith ef yn yr awr fwyaf drallodus. Yr oedd yn credu yn ddiysgog yn llywodraeth Duw, ac y mae ôl ei gred ar ei fywyd. Felly yn gymmwys yr hwn sydd a'r Iesu yn Arglwydd iddo.

Y mae'r Iesu etto yn dysgu maddeugarwch Duw. Pe angen am brawf y mae dameg y mab afradlon yn ddigon. Maddeugarwch heb na thâl na phris sydd yma, nac un telerau, ond yn unig fod i ddyn faddeu, os myn gael maddeuant. Dysgodd yr Iesu felly; bu fyw y rhan hon etto o'i athrawiaeth. Pan yn y ddalfa ar y pren dioddef, fe weddiodd; do, fe weddiodd, a'i weddi oedd, "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur." Felly os yw'r Iesu yn Arglwydd i ni, y mae maddeugarwch yn ei rym yn arglwyddiaethu ar ein monwesau, ac yn dwyn gydag ef y sicrwydd hollol fod Duw yn maddeu i ninnau: a thyma beth yw bod yn y nefoedd tra ar y ddaear hon. Ond rhaid i mi adael llawer o ddysgeidiaeth Crist ar ol, a myned at

2. Yr ail ammod yn y testun. "A chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw."

Dyma brif golofn ac addurn Crist'nogrwydd; un o'i neillduolion, os nid y neillduol, perthynol iddi. Heb hon ni fuasai Paul byth yn Gristion, na Phedr ddim ond dysgybl siomedig athraw twyllodrus. Y mae crediniaeth yn hon o'r pwys mwyaf. Nid dywedyd y gair sydd ddigon; ond credu yn y galon, credu'n wirioneddol i Dduw ei gyfodi ef o feirw. Ac y mae modd credu y grediniaeth hon ynghrefydd yr Iesu. Y mae credu yn ymddibynu ar brofion. Ni ellir peidio credu os bydd y profion yn ddigonol. Nid yr un profion sydd yn angenrheidiol i gadarnhau pob math o bwngc. Er nad yw adgyfodiad Crist o feirw ddim yn gofyn nac yn caniattau *demonstrations* Euclid, er hynny gall fod y profion drosto yr un mor eglur a nerthol, ac

felly yn ei wneyd yr un mor gredadwy a *theorems* mwyaf eglur Euclid. Yn wir, pe caniattai amser, gallaswn ddangos fod y profion dros adgyfodiad Iesu o'r bedd yn fwy eglur, nerthol, a chredadwy nag eiddo Euclid ei hun. Y mae y profion moesol dros y pwngc pwysig hwn mor gedyrn fel y byddai yn rhaid i mi roddi i fynu fy nghrediniaeth ymhob hanes fel ei gilydd, a phob tystiolaeth pa bynnag pe gorfyddai arnaf roddi hwn i fynu. Pallai amser i mi grybwyll yr holl brofion sydd wedi eu dwyn ymlaen dros y gwirionedd cyssurlawn hwn: cymmerai hynny gyfrolau; gan hynny rhaid boddloni, ar hyn o bryd, ar y rhai a ymddangosant i mi y mwyaf pwrpasol mewn cynnulleidfa gymysgedig o fath hon.

Y mae tystiolaeth onest a geirwir bob amser yn dderbyniol; ond pan fyddo'r cyfryw dystiolaeth yn cael ei dwyn ymlaen dan rai amgylchiadau neillduol, y mae'n dyfod yn anwrthwynebol. Y mae pob arwyddion fod apostolion Crist yn ddynion cywir a gonest. Nid yw eu hanes di-addurn yn dangos fod ynddynt y duedd leiaf i dwyllo'r darllenydd. Yn wir, nid ydynt lawer pryd yn gwneyd y gorau o'r ffeithiau y maent yn adrodd. Dim ond eu hadrodd yn unig, a gadael i'r darllenydd dynu ei gasgliad oddiwrthynt fel y gwelo ef yn gymmwys. Er esiampl gellid enwi *stori* fongleraidd y milwyr i gyfrif am absenoldeb corph yr Iesu; "Ei ddysgyblion a ddaethant o hyd nos ac a'i lladrattasant ef, *a nyni yn cysgu.*" Y mae'r chwedl yn cael ei hadrodd ganddynt heb un gair i ddangos yr *amhossibilrwydd* i'r milwyr wybod *beth* ddaeth o gorph yr Iesu a hwythau yn *cysgu.* Nid dynion oeddent ychwaith rhy barod i gredu fod yr Iesu yn fyw heb y profion cadarnaf. Na, nid dynion dan lywodraeth penboethni wedi gweithio eu hunain i wallgofrwydd oeddent. Nage, ond hwyrfrydig o galon i gredu oedd *caracter* y ddau ddysgybl oeddent yn teithio tuag Emmaus: a phan ddywedasant yr hanes y modd y gwelsant yr Iesu wrth y lleill, ni chredent, medd yr hanes: ac mewn man arall yr ydym yn cael fel hyn. "Eithr rhai a amheuasant." A phan y darfu iddynt feddwl iddynt weled yspryd yr oedd yn rhaid iddynt gael gweled a theimlo'r Iesu ei hun cyn credu nad rhyw ddrychiolaeth oeddent wedi weled. Y mae Thomas, yr anghredadyn, yn cael y prawf oedd ef yn ofyn: dodi ei law yn ei ystlys, a'i fys yn ôl yr hoelion, ac yna, nid cyn hynny, y mae'n credu.

Y mae'r dystiolaeth dros y gwirionedd hwn etto yn cael ei dwyn ymlaen ganddynt dan y fath amgylchiadau fel y mae'n amhossibl peidio dyfod i'r casgliad, eu bod yn credu yr hyn a draethent. Pan yn darllen *Age of Reason*, Paine, yr oeddwn yn rhwym o feddwl ei fod ef yn credu fod yr hyn a ysgrifenai yn wir, gan ei fod yn gwneyd ei hun, oherwydd cyhoeddi'r fath syniadau, yn agored i wawd a dirmyg: ond pe buasai wedi cael ei erlid gyda'i wawdio, ei ladd gyda'i ddirmygu, byddai yn amhossibl wed'yn lai na meddwl ei fod ef yn credu fod ganddo wirionedd o werth cymmeryd ei wawdio, ei erlid, a'i ladd o'i herwydd. Er hynny gallasai fod yn gamsyniol wedi'r cyfan. Y mae cannoedd o ferthyron o *wahanol* syniadau wedi marw, cyn hyn, dros eu gwahanol ddaliadau: ni allasent fod oll yn iawn; ond ni fu neb erioed farw dros yr hyn a wyddai ef mai twyll oedd: dim erioed goeliaf fi. Wel, dyma'r amgylchiadau dan y rhai y mae'r apostolion yn dwyn eu tystiolaeth i adgyfodiad Crist o feirw. Yr oeddent yn gwneyd eu hunain trwy hynny yn agored i wawd a dirmyg, erledigaeth ac angeu: er hynny ni thynodd un o honynt yn ôl. Ond, meddwch, gallasent fod yn gamsyniol. Gallasent, meddaf, fel llawer o'u blaen, pe dros bwngc o ath-

rawiaeth y dygasent eu tystiolaeth; ond gan mai dros ffaith nad oedd angen am ragor na llygaid a chlustiau fel dynion eraill cyn bod yn sicr yn ei chylch, nis gallasent gamsynied yn hyn; gan iddynt gael gweled a chlywed yr Iesu, bwytta ac yfed gydag ef, a chael pob prawf angenrheidiol i'w boddloni mai'r Iesu ei hun oedd ganddynt. Felly, ynte, y mae'n rhaid eu bod yn gwybod eu bod yn dywedyd y gwir.

Yn nesaf, nid wyf yn gallu canfod pa fodd y gellir cyfrif am y cyfnewidiad mawr a gymmerodd le yn ymddygiad yr Apostolion ar ol marwolaeth yr Iesu, nac ychwaith am droedigaeth Saul o Tarsus, a'r gwelliant cyfattebol a gymmerodd le yn ei garacter ef mewn canlyniad i hyny, ond yn unig ar y tir iddo ef a'r Apostolion oll weled yr Iesu yn fyw ar ol marw, fel y maent hwy yn tystio. Pan ddaliwyd yr Iesu diflanodd gobeithion uchel ei ddysgyblion ar unwaith; gwadodd Pedr ef, a thyngodd a rhegodd nad oedd yn ei adwaen; ciliasant oll a gadawsant ef yn unig ar ei dreial caled. Nid oeddent yn gweled pryd hynny ei bod o werth iddynt hwy i beryglu eu bywydau yn achos eu meistr: a digon tebyg hefyd mai yn y cyflwr hwn yr arosent heb gael eu cyfnewid gan ryw achos digonol; ac er mwyn bod yn ddigonol y mae'n rhaid iddo fod yn gryfach nag ofn angeu. Digon tebyg y gallasai Pedr gael modd i sychu y dagrau a gollodd wrth wylo'n chwerw dost oherwydd gwadu ei Arglwydd, gan ei fod yntau, os oedd yr Iesu yn ei fedd, wedi cael ei dwyllo i'r graddau pellaf ynddo. Beth all ei ddwyn ef a hwythau yn ol yw'r pwngc. Y mae'n rhaid cael achos digonol i bob effaith. Dyma effaith fawr, fawr iawn, dychweliad Pedr a'r apostolion i gofleidio'r achos a adawsant rhag ofn colli eu bywydau drosto. Cymmerodd le er hynny. Ar ddydd y Pentecost casglasant ynghyd i ddisgwyl addewid y Tad, ac ni chawsant eu siomi. Wele hwynt yn sefyll i fynu yn hŷ yn awr heb wybod llai na chant ddioddef angeu cyn y nos honno oherwydd eu tystiolaeth dros adgyfodiad Iesu o'r bedd. Y mae'r llibinweis hyn, y *cowards* yma ys ychydig yn ol, yn wroniaid o'r dewraf allan yn awr. Ofn angeu wedi darfod yn lân. Y mae'n rhaid cael achos, ac achos digonol hefyd i hyn. Mae gwir philosophyddiaeth yn gofyn hyn. Dyma'r achos y mae Pedr yn grybwyll: "Yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi a gyfododd Duw o feirw; o'r hyn yr ydym ni oll yn dystion." Dyma achos digonol; llai ni wna'r tro. Y mae'r Iesu yn fyw ynte, a byw fyddwn ninnau hefyd. Y mae troedigaeth Saul hefyd yn anghyfrifadwy ar un tir ond yr hwn a gair yn ei hanes ef ei hun, sef iddo gyfarfod â'r Iesu ar ei ffordd tua Damascus; ac oddiar hynny wele'r erlidiwr yn troi'n ddyngarwr; yr Iuddew yn Gristion. Nid oes gadwyn mwy yn ei feddiant ef i'w gosod am un dyn byw; ond fe'i cymmer hi ei hunan. Yn lle carcharu ereill aiff i garchar ei hunan yn llawen, er mwyn y gwirionedd a welodd ac a deimlodd, sef fod yr Iesu yn fyw, a bod bywyd iddo yntau hefyd. Ei iaith o flaen Agrippa oedd: "Mi a ddymunwn gan Dduw, fod nid tydi yn unig ond pawb a'r sydd yn fy ngwrando i heddyw o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, yn gyfryw ag wyf fi, ond y rhwymau hyn." Dim o'r rhai'n i'w elyn gwaethaf mwy; ond pob dedwyddwch a all sefyllfa newydd Paul, y Cristion, ei roi iddo; yn gyfryw ag wyf fi, ond y rhwymau hyn. Dyma gyfnewidiad mawr iawn; ond y mae'r achos yn fawr iawn hefyd; digon mawr, eithaf digon i symmud ymaith yn hollol ddychryn angeu ei hun. "Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw," oedd ei iaith ef o hynny allan.

Dim ond un prawf arall a roddaf ar hyn o bryd, o wirionedd yr athraw-

iaeth ag sydd yn gofyn ac yn haeddu'r galon, ïe'r *galon*, i'w chredu, ac â'r hony mae cadwedigaeth yn gyssylltiedig; "Cadwedig y fyddi:" sef, na ellir cyfrif am y dydd a gedwir gan Grist'nogion yn awr, ac a gedwid oddiar yr amser boreuaf, ond ar y tir i Grist gael ei gyfodi o feirw. Ar y dydd *cyntaf o'r wythnos* ai'r disgyblion o dŷ i dŷ, gan dòri bara. Trosglwyddwyd y dydd gwyl hwn i lawr i'n dyddiau ni. Maes o law aeth seithfed dydd, Sabboth yr Iuddew, i golli yn lân, er wedi ei sancteiddio, medd yr hanes, gan Dduw ei hun; ac er fod canrifau lawer o arferiad parhaus wedi ei wneyd yn beryglus o sanctaidd. Hawddach newid hên athrawiaeth na hên ddefod o lawer. Ond er mor anhawdd newid y dydd, wele dydd arall, dydd Sul, y dydd *cyntaf* o'r wythnos wedi cymmeryd lle y *seithfed* dydd, er sancteiddied oedd. A pheth welaf? Crist'nogion o wahanol enwadau, er mor bell y maent yn gwahaniaethu yn eu barnau crefyddol, er hynny y maent yn un yn hyn; yn cyfarfod yn eu gwahanol leoedd addoliad, yn cadw'r dydd; ac hefyd yn achlusurol yn gwneuthur coffadwriaeth am farwolaeth ac adgyfodiad yr Iesu, trwy fwytta o'r bara ac yfed o'r cwppan. A allasai hyn gymmeryd lle, os yw'r Iesu etto yn ei fedd? Amhossibl! Ni fuasai'r disgyblion cyntaf ddim ond cofio am eu siomedigaeth hwy, a thwyll eu meistr trwy hyn; ac felly ni chai'r arferiad byth ei ddechreu; ni chlywsid sôn am dano. Ond caniattaer iddynt weled yr Iesu a gyfododd ar y trydydd dydd, y dydd cyntaf o'r wythnos, yr oedd yn natturiol iddynt gadw'r dydd. Yr oedd yn amhossibl iddynt beidio. Cofio am eu bywyd wedi ei achub o afael angeu, am feddau'r byd wedi eu hagor, am fyddugoliaeth wedi ei chael ar y gelyn olaf oedd hyn. Y mae'r effaith hon etto yn aruthrol fawr; ond y mae'r achos yn eithaf digon i gyfrif am dani. Eithr heb yr achos hwn yr oedd yn rhaid i Dduw, trwy wyrth, newid y nattur ddynol, a pheri i'r Apostolion gredu a thaenu twyll, a wyddent mai twyll oedd ef, a'u gwneyd yn foddlon peryglu, ïe, a cholli eu bywydau wrth hynny, er mor ofnus oeddent er ys ychydig yn ol. Hyn ni allasai Duw doeth a da ei wneyd; gan hynny y mae'r effaith yn canlyn yr achos yn anocheladwy. Felly y mae'r gwirionedd pwysig, pwysig iawn am fyd i ddyfod, yn cael ei sefydlu tuhwnt i ddadl. Efallai y dywedwch, mewn atteb, ei bod yn natturiol i ddyn gofio am gyfaill, yn enwedig pan yn dioddef ar gam. Ydyw, am gyfaill; ond nid cyfaill yw twyllwr, a thwyllwr oedd Iesu os na chyfododd o'r bedd fel y darfu iddo rag-fynegi i'w ddysgyblion. Ymhellach, pe cofio am eu Harglwydd yn dioddef ar gam yr oedd yr Apostolion yn cadw'r dydd cyntaf o'r wythnos, darfu iddynt gamsynied y dydd, gan mai dydd Gwener y cafodd ei ladd. Nid hwn oeddent hwy'n gadw, ond dydd y codi o'r bedd. Felly y mae yma bwngc teilwng o'r galon i'w gredu, sef i Dduw godi'r Iesu o'r bedd. Pwngc yr holl byngciau yw hwn. Nid oes un ffaith mewn un hanes yn cael ei chynnal gan brofion mor nerthol a hwn. *Brâd y powdwr gwn* yw'r tebyccaf iddo yn hanes Lloegr. Wedi i'r brenhin Iago I. a'r ddau dŷ o barliament gael eu hachub rhag brâd y Pabyddion, yr oedd yn natturiol iddynt wneyd coffadwriaeth o'r waredigaeth a gawsant. Yn ganlynol yr ydym yn cael gweddiau o ddiolchgarwch yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, i'w harfer ar y pummed o Dachwedd; a chyda hyn arferid, hyd yn ddiweddar, dafiu *fireworks* i fynu ar yr un dydd, o rialtwch am yr un waredigaeth. Felly y mae'r pwngc hwn yn hanes Lloegr yn cael ei gynnal gan brofion cyfochrol cryfion: ond nid mor gryfion o lawer o ffordd a'r profion cyfochrol dros adgyfodiad Crist. Nid yw'r gweddiau diolchgarwch a soniwyd am

danynt ddim yn cael eu harfer yn un deyrnas ond Lloegr, nac ychwaith yn Lloegr, ond yn yr Eglwys Sefydledig. Felly mae'r gwahaniaeth yn fawr, mawr iawn. Y mae'r dydd cyntaf o'r wythnos, dydd y codi o'r bedd, yn cael ei gadw gan holl wahanol sectau Cristnogaeth trwy'r holl fyd, a swpper yr Arglwydd yn cael ei gweinyddu gan bawb, ond un *parti* bychan, y Crynwyr. Felly mae'r pwngc dan sylw yn cael ei gynnal gan brofion anghydmarol gadarnach na'r pwngc mwyaf eglur yn hanes Lloegr. Nid gormod yn awr, ynte, yw troi yn ol at bwngc y cadw, at eiriau nefol yr Apostol, "A chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig y fyddi."

II. Nattur a helaethrwydd y gadwedigaeth.

1. Nattur y gadwedigaeth. Mae'r dydd wedi cerdded yn rhy bell, gobeithiaf, i sôn bellach am dân a brwmstan, am achub rhag y fflamiau tragywyddol. Y mae'n rhaid cael rhyw feddwl arall i gadwedigaeth, mwy cysson â character a dybenion gogoneddus anfeidrol gariad. Wrth gadwedigaeth yr wyf yn deall y dedwyddwch hwnnw sydd yn anwahanol gyssylltiedig âg adnabyddiaeth o'r gwirionedd, yn cynnyrch ffrwythau sancteiddrwydd, purdeb, haelioni, dyngarwch, ac ewyllys-da cyffredinol ym muchedd dyn. Yr hyder hwnnw yn Nuw ag y mae syniadau cywir am Grëwr y bydoedd yn grëu ym monwes dyn: gweled y llywodraeth ddwyfol yn dwyn oddiamgylch ei hamcanion graslawn er dedwyddu holl deulu dyn, heb neb yn gallu ei rwystro mewn dim; a theimlo, mewn canlyniad i hynny, yr hyder mwyaf yn holl drefniadau doeth a daionus y Goruchel Dad, ac awydd ddidor i gyflawni yr ewyllys ddwyfol ymhob peth. Os nad yw dyn o'r fath yma yn cael ei gadw rhag gofidiau a thrallodion bywyd, y mae'n cael ei gynnal danynt oll, gan eu hystyried yn oreuon Duw'r cariad, yn fendithion mewn *disguise*. Y mae'r cyfan wrth fodd ei galon. Y mae'n cael ei gadw rhag pechod a'i ganlyniadau truenus; rhag ofn angeu a'r bedd. Y mae'n cael ei gadw ynghol maddeugarwch; y mae'n maddeu; ac oherwydd yr anian faddeugar o'i fewn y mae'n teimlo'n sicr ei fod yn wrthrych trugaredd y nefoedd; mae ei Athraw wedi sicrhau hyn iddo: "Gwyn fyd y trugarogion, canys hwy a gant drugaredd." Pwy all ddyweyd faint yw gwerth hyn; a maint y trallod a'r gofid o'r ochr arall, sydd o deimlo amheuaeth ar bwngc o gymmaint pwys? Yn yml bedd yr Iesu, ar foreu'r trydydd dydd, y mae'r Cristion yn cael sicrwydd y bydd i'r un egwyddorion am bob tragwyddoldeb i arllwys dwfr grisialaidd tragywyddol wynfyd i gwppan ei fywyd a bery byth. Pwy all ddyweyd faint y mwyniant, faint y nerth a'r gwroldeb y mae sicrwydd ar hyn yn roddi i rinwedd a duwioldeb; ac o'r tu arall, faint y golled y mae'r hwn sydd heb y sicrwydd hyn yn gael? Dyma'r gadwedigaeth, a thyma'r golledigaeth hefyd: yr enill y mae'r naill, a'r golled y mae'r llall yn gael. Y *mae* crefydd Iesu yn achub. Hi gadwodd Iesu ei hun gyda gwaith ei Dad, er heb le i osod ei ben i lawr; hi cadwodd ef mewn cyfyngder heb amheu dim o ddybenion y llywodraeth ddwyfol. Faint o ddedwyddwch oedd yr Iesu yn fwynhau, ac y mae'n fwynhau yn awr wrth feddwl ei fod ef yn offeryn yn llaw ei Dad i beri chwildröad ym moesau'r byd; i ddwyn cyfnod newydd ar rinwedd a sancteiddrwydd trwy ddiddymu angeu a dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni, ac felly cydio tragywyddoldeb ac amser a'u gilydd, a gosod dyn yng ngoleuni byd i ddyfod, i fyw a marw, a byw byth mewn trag'wyddol wynfyd maes o law! Ni all neb ddychymyg mwyniant yr Iesu. Yr oedd yn werth marw ddwywaith o'i herwydd, pe'n bossibl. Fel yr oedd yr Iesu ymlaenaf yma mewn gwybod-

aeth a rhinwedd, bydd ymlaenaf draw hefyd mewn mwyniant a thragywyddol wynfyd. Ond er ein cyssur, er nerth i'n rhinwedd, yr agosaf atto yma fydd y nesaf atto draw hefyd: canys y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant. Fel y bydd graddau yn nioddefaint yr annuwiol, yr ychydig a'r llawer ffonodiau, bydd graddau hefyd yn nedwyddwch y duwiol yr ochr draw. O bydd, bydd. Nid cyfiawnder heb hyn. Hau'n brin, medi hefyd yn brin; hau'n helaeth, medi hefyd yn helaeth. "Nid oes derbyn wyneb gyda Duw; yr hyn a hauo dyn, hynny hefyd a fed efe."

2. Helaethrwydd y gadwedigaeth.—Bydd ryw bryd i gyrhaedd pawb. Mor gynted ag y delo pawb i wybodaeth o'r gwirionedd a'i effeithiau grymus, dyna'r pryd, ac nid cyn hynny, y bydd i ddanteithion y gwirionedd a bywyd sanctaidd i gael eu mwynhau. Y mae'n well o lawer, gan hynny, i ymdrechu taenu'r gwirionedd, hyd eithaf ein galluoedd, na gorphwys yn dawel ar y meddwl y gall pob dyn fod yn gadwedig trwy'r gwirionedd neu hebddo, fel y digwyddo, os byddant yn gydwybodol, yn nydd'on i'w syniadau, cam neu gymmwys. Nid oes dim yn ddieithr yn y meddwl na all neb gael y dedwyddwch sydd ynglyn â gwirionedd yr Iesu heb gael ei wirionedd ef. Dywedodd yr Iesu wrth ei ddisgyblion, "A chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi." Nid oeddent yn rhyddion pryd hynny, fel y tystia eu hymddygiad hwy eu hunain pan y ffoisant bob un oddiwrtho; nac oeddent, nac i fod yn rhyddion ychwaith nes cael gwybod y gwirionedd a'i deimlo yn nerthol weithio ynddynt yr cwyllysio a'r gweithredu. Cymmaint o wirionedd sydd genym ninnau, yn dwyn ei ffrwythau yn ein gweithredoedd, dyna'n gymmwys faint o grefydd sydd genym; a chymaint o grefydd sydd genym dyna hefyd faint o dduedwyddwch neu gadwedigaeth sydd genym. Dywedais nad oes dim yn ddieithr yn yr olwg hon; dywedaf hynny etto. Dyma fel y mae'n bod yn gymmwys gyda phob gwybodaeth a wyddom ni am dani. Ni all neb gael pleserau uchel seryddiaeth Newton, mesuryddiaeth Euclid, *mathematics* La Place, *metaphysics* dwfn Locke, Hartley, a Phriestley, heb gael gwirioneddau y gwahanol enwogion hyn. Ac nid yw crefydd yr Iesu ddim yn eithriad; y mae'n rhaid ei chael hithau neu fod heb ei mwyniant. Ar y tir hwn, meddwch, y mae holl ddynolryw, ond rhyw ychydig bach iawn, i fod yn ymddifad o gyssuron y gwirionedd hyd nes caffont ef, a hynny am na chawsant gynnyg arno erioed. I hyn yr wyf yn atteb, "Y rhai a bechasant yn ddi-ddeddf, a gyfrgollir hefyd yn ddi-ddeddf." Ar yr un tir hefyd gellid dywedyd am y mwyafrif o lawer o'r hil ddynol, ei bod yn drueni na chaent fwynhau pleserau seryddiaeth, philosophyddiaeth, darddansoddiaeth, &c., oherwydd na chawsant gyfle i gyrhaedd y gwybodaethau hyn. Trueni ai peidio, felly y mae'n bod, ac felly y bydd hefyd nes y caffont y gwybodaethau hyn. Beth, meddwch, ddaw o enwogion Groeg a Rhufain ar y tir hwn? Ble mae Socrates dreiddgar ei gyrhaeddiadau, uchel ei rinweddau; ble mae Socrates hunanymwadol yn sefyll yn awr? Wel, ni chaiff ddim cam; ni chaiff un loes oddiwrth un rhinwedd, dim colled oddiwrth un wybodaeth lesiol a gyrhaeddodd neu a ddysgodd; ond ni chaiff ond colled i gyd oddiwrth ei eulunaddoliaeth, ac eulunaddolwr oedd ef yn ol ei dystiolaeth ef ei hun ar ei dreial, fel y tystia Xenophon a Plato, yn eu hanes am dano. Er na chaiff ef na neb arall un loes oddiwrth ddim da a wnaeth, ni chaiff fawr dedwyddwch oddiwrth ei gyfeillach ag Aspasia anniwair, na'i yn ddidden a Theodota'r buttain, am na chynnygodd ei throi oddiwrth ei harferion aflan, ond yn hytrach i'r gwrth-

wyneb. Yn fyr, os mynwch glywed fy marn i ar oreuon y byd mewn cydmariaeth i'r gwir Gristion eiddilaf; dyma hi yng ngeiriau Crist am Ioan Fedyddiwr: "Ymhlith plant gwragedd ni chododd neb mwy nag Ioan Fedyddiwr: er hynny yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nag ef." Caiff Socrates, gan hynny, fwynhau neu ddioddef, fel pob un arall, yn ol ei gymwysder neu ei anghymwysder yn gymwys.

Beth! meddwch etto, a gaiff dim o'r hwn sydd yn ffyddlon i'w syniadau, canad beth y fyddont, ei gadw trwy ei ffyddlondeb i'r hyn a greda? Y mae ffyddlondeb yn dda, a da iawn pan ymhlaid y gwirionedd, ac nis gellir gwneyd hebddo; ond o'r ochr arall, ffyddlondeb i gyfeiliornad ni all achub neb. Ni all ffyddlondeb newid cyfeiliornad a'i droi yn wirionedd. Pe byddai i ryw un ffurfio barn anghywir am wenwyn, ei fod yn faethlon, ac yn dda i gynnal bywyd, ni wnai hynny gyfnewid nattur y gwenwyn a'i attal i ddinystrio bywyd: ei ladd a gai yr hwn a'i cymmerai ef; ac os ffyddlon i'w gred am dano, byddai yn sicr o'i gymmeryd ef: ïe, yn wir, pa fwyaf cydwybodol, pa fwyaf ffyddlon, mwyaf sicr o'i ddinystr wed'yn.

Meddyliwch fod rhyw un yn ysgrifenu llyfr ar forwriaeth, yn llawn gwallau i gyd; pob rheol yn anghywir; pob cyfarwyddid yn feius; y *charts*, os byddai y cyfryw yn y llyfr, yn dangos fod creigydd lle nad ydynt, ac nad ydynt lle y maent. Wele'r morwr yn cymmeryd y llyfr mewn llaw, yn ei ddysgu'n drwadl, yn ei gredu'n hollol, a thrwy ffyddlondeb i'r hyn a greda, wele ef yn hwylio ei long anhappus yn ol cyfarwyddiadau y llyfr, a'r awel denau yn llanw ei hwyliau, ac yn gyrru'r llong yn erbyn y graig, ac wele hi yn cael ei dryllio'n ddarnau. A wna ffyddlondeb i'r fath gyfeiliornad achub y morwr, a'r oll sydd gydag ef, rhag myned i'r gwaelod a boddi? Na wnaiff. Trueni meddwch! Trueni neu beidio, dyna fel y mae'n rhwym o fod. Fel ar dir nattur, felly hefyd ar dir crefydd yn gymmwys. A all ffyddlondeb y Pagan i foddloni duwies y glendid trwy odineb; Bachus, trwy feddwdod, wneyd godineb a meddwdod yn rhinweddau? Na all, yw yr unig atteb. A all ffyddlondeb y fam pan aner iddi blentyn egwan o gyfansoddiad, yn gadael ei phlentyn gwanllyd ar y maes, yn ysglyfaeth i'r oerfel, y gwres, neu greaduriaid rheibus—a all ei ffyddlondeb hi i grefydd ei gwlad wneyd plentynladdiad yn dda yn ngolwg Duw? Na all. Wele weddw dylawd, eithaf ffyddlon i'w syniadau crefyddol, yn esgyn i gofadael ei gwr ac yn cymmeryd ei llosgi yn ulw yn y man: wele hen wr penllwyd yn cael ei daro a chlefyd. Ei Dduw sydd wedi anfon am dano, meddant; nid oes lle ei gynnorthwyo, ac wele ef yn cael ei gludo i lan y Ganges neu i ryw le arall, yno i drengu yn ddiymgeledd. Y mae yma eithaf ffyddlondeb; ond a wna ffyddlondeb y naill neu'r llall hunan-leiddiad a thad-leiddiad yn gymmeradwy gan Dduw? Na wnaiff. A wnaiff ffyddlondeb i Mars, Duw'r rhyfel, trwy dywallt gwaed dyn yn afonydd ar hyd maesydd toreithiog Duw; a wnaiff y ffyddlondeb sydd

> "Yn poeri tân, peri twrf
> Ac ennyn trwy'r byd gynnwrf,"

a wnaiff hyn ryfel yn gymmeradwy gan y nefoedd? Na wnaiff. Nis gall. Y mae'r ddwy blaid ryfelgar, yn America'r fynyd hon, yn rhy ffyddlon i'w syniadau o lawer. Y mae'r *North* a'r *South* yn credu yn ddigon cydwybodol eu bod yn iawn, ac yn galw ar Dduw, bob un o honynt, am lwyddiant i'w harfau; ac yn diolch am dano wedi ei gael. A all eu ffyddlondeb hwynt

gymmeradwyo eu gwaith erchyll, yn peri tuag wyth can mil i fyned i dragwyddoldeb ar faes y gwaed? A all y carn-gigyddion hyn gael y mwyniant sydd ynglyn â'r tangnefedd hwnnw ddarfu i'r Iesu gyhoeddi gwynfyd uwch ei ben, a bod yn blant Duw? Na allant, na allant, heb gael y tangnefedd hwnnw. Ond mi ddywedaf wrthych beth a gânt, os ydynt yn eithaf ffyddlon i'r hyn a gredant: caiff un o'r ddwy blaid ei dileu yn hollol o fodoliaeth. Rhyfel difodiad yw effaith y ffyddlondeb yma. Yr oedd gelynion Crist yn eithaf ffyddlon i'w syniadau cyfeiliornus pan yn ei ladd ef; ond nid dibechod serch hynny. Yr oedd Saul hefyd yn eithaf ffyddlon i'w Iuddewaeth pan yn erlid y Cristnogion; ond ni chafodd fawr pleser wrth feddwl am hynny wedi iddo gael ei droi yn Gristion; naddo'n wir: ond fe gafodd drugaredd, medd ef yn ei lythyr at Timotheus, am iddo yn ddiarwybod ei wneuthur trwy anghredinaeth. Ni fuasai fawr eisiau trugaredd arno os oedd yn gadwedig o'r blaen trwy ei ffyddlondeb i'w syniadau; ond mor bell o feddwl ei fod yn gadwedig o'r blaen y mae'n teimlo'n ofidus oherwydd ei ffyddlondeb i'w gyfeiliornad o hyd, fel y dywed yn ei lythyr at y Corinthiaid, "Canys myfi yw'r lleiaf o'r Apostolion, medd ef, yr hwn nid wyf addas i'm galw yn Apostol, am i mi erlid eglwys Dduw." Nid am nad oedd mor helaeth ei wybodaeth, mor ffyddlon i'w syniadau fel Cristion, ac mor llafurus a neb o'r Apostolion, y mae Paul yn dywedyd hyn; nage, "Mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll," yw ei iaith ef; ond am iddo erlid yr eglwys; am iddo fod yn rhy ffyddlon i'w argyhoeddiadau blaenorol, pan yr oedd o'r grêd ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw trwy ynfydu yn erbyn disgyblion Crist. Ac yr wyf o'r farn mai dyma fel y bydd hi ar bob dyn pan yr argyhoeddir ef o'i gyfeiliornad, ac yr achubir ef trwy hynny. Y llai na'r lleiaf y fydd ef yn ei olwg ei hun, er ffyddloned y bu i'w syniadau cyfeiliornus a'i argyhoeddiadau anghywir.

Y mae gennyf un peth i ychwanegu etto ar hyn; sef, pe byddai pob un yn ffyddlon, yn *eithaf* ffyddlon i'w syniadau cyfeiliornus; ac o'r tu arall, pob un yn hollol ffyddlon i'r gwirionedd, cai'r olaf y fantais yn y man; gan y byddai cyfeiliornad yn hunan-ddinystriol, a'r gwirionedd, trwy ei effeithiau cyssurlawn, yn cymmeradwyo ei hun i bob enaid dyn; cai'r fuddugoliaeth yn union. Calfin ffyddlon i'w Galfiniaeth ni fu, nid yw, ac ni ddaw ychwaith. Fe dreiodd Calfin ei hun fod yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau unwaith pan y bu'n achos o losgi Servetus druan. Gweithred deilwng o'i syniadau creulon am Dduw, a'i olygiadau isel am weithredoedd da oedd hon. Calfin ffyddlon i'w Galfiniaeth fyddai heb un man glân na chyfan arno o wadn y droed i goryn y pen. Beth! brattiau bydron, pechodau disglaer, medd ef, yw cyfiawnder goreu dyn! Os ffyddlon i'w olygiadau fe gasha bob rhinwedd â châs perffaith. Beth! meddaf etto, y dua'i liw fydd uwcha'i gân: hen athrawiaeth anwyl gynt? Ffyddlondeb i hyn a wna ddyn mor ddued a'r parddu, fel y byddo'i gân ef yn ddigon uchel draw. Mae Crist wedi talu'r cyfan o'r ddyled, medd Calfin. Ffyddlondeb i hyn a bâr na thalo neb eu dyledion; mae'r cyfan wedi ei dalu'n barod. Na, na, ni chaiff na Phagan, nac Iuddew, na Chalfin, nac Undodwr byth eu hachub trwy eu ffyddlondeb i'r hyn a gredant, ond mor belled yn unig ag y byddo eu cred yn seiliedig ar y gwirionedd. Ymdrechwn ynte i gael y gwirionedd.

"Fy marddair, y gair a'm gwedd
Yw gair anwyl gwirionedd."

Ar ei ôl, ynte; a chwedi ei gael ffyddlondeb iddo, ac yna fe ddaw cyfnod newydd ar grefydd. Ffyddlondeb i'r gwirionedd, gwirionedd yr Iesu a grëa fyd newydd, awyddus i weithredoedd da. Yr achos pennaf o ddiffyg llwyddiant y gwirionedd, mae achos i ofni, yw anffyddlondeb ei broffeswyr. Sôn am dano heb nemawr o'i yspryd, nemawr o'i ffrwythau y maent. Nid y gwirionedd sy'n ddiffygiol; nid arno ef y mae'r bai: o nage'n wir. Chwareu têg iddo, gyfeilion. Pe cawn un gymydogaeth, un teulu o ran hynny, yn ffyddlon i'r gwirionedd, yn hollol ffyddlon iddo, ni feddyliai neb wed'yn am gadwedigaeth mewn un man arall.

"Gwyn eu byd y rhai ad ffwyn; y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder; y trugarogion, y rhai pur o galon, y tangnefeddwyr." Ffyddlondeb i'r egwyddorion hyn a wna'r galon yn gyfiawn, yn bur, sanctaidd a thrugarog. Plant Duw yw'r rhai'n, a nefoedd Duw y maent yn feynhau, ac a gant fwynhau am byth. Y mae'r Iesu yn cynwys ei grefydd ef yn gryno mewn dau orchymyn, neu un yn hytrach; oblegid yr un egwyddor sydd yn y ddau. "Car yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, a'th holl nerth, &c., a'th gymydog fel ti dy hun." Ffyddlondeb yma a ddyg oddiamgylch yr effeithiau mwyaf cyssurlawn. Dyma'r pryd y bydd y cleddyfau wedi eu troi'n sychau, a'r gwayffyn yn bladuriau; mellt a tharanau rhyfel wedi eu newid am ffrwythau cariad, a llafar tangnefedd a hêdd: dyn wedi troi'n wirioneddol yr hyn y ddylai fod, yn blentyn Duw a brawd dyn, yn dwyn delw y cariad tragywyddol. Ffyddlondeb, wy'i ddyweyd gyfeillion. Nid oes yma ddim perygl bod yn ffyddlon. Pa mwyaf ffyddlon i gyfeiliornad, mwyaf sicr y dinystr, y golledigaeth: ond yn awr i'r gwrthwyneb, pa fwyaf ffyddlon i'r gwirionedd mwyaf sicr y gadwedigaeth. "Llewyrched felly eich goleuni ynte gerbron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." "Cerwch eich gelynion; gwnewch dda i'r sawl a'ch casant, a gweddiwch dros y rhai a wnel niwaid i chwi, ac a'ch erlidiant; fel y byddoch blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd: canys y mae efe yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn." Ffyddlondeb i'r gwirionedd hwn a esyd derfyn ar bob amrafael; diwedd ar bob ymryson. Ni cllir drygu neb a'i garu. Cariad ni feddwl ddrwg. Ffyddlondeb i'r egwyddor hon a bâr i'r plentyn gwanaidd, y tad oedranus pan dan faich o ddolur, i gael eu hymgeleddu a'u hymddiffyn, yn lle cael eu gadael yn ysglyfaeth i'r oerfel a'r gwres, i farw o ddiffyg cymmorth. Anrhydedda dy dad a'th fam, yw iaith cariad, ac nid oes un *corban* a all ddileu'r ddyledswydd. Caru Duw a dyn; ffyddlondeb i hyn a esyd derfyn tragywyddol i odineb, anlladrwydd a phob drygioni. Y mae cyfiawnder, sanctaiddrwydd, dy garwch a daioni yn dyfod yn egwyddorion llywodraethol yn meuwes y Cristion. Caethfeistr, caethwas, a chaethfasnach fyddant yn perthyn i'r hyn a fu, i'r amser aeth heibio: enwau ar dudalenau hanesyddiaeth, a dim yn rhagor. Cariad at Dduw a dyn a'n gwna ni yn awyddus i ddwyn beichiau ein gilydd, ac felly gyfiawni cyfraith Crist. Pryd hyn fe fydd tlodi wedi darfod, neu pawb yn dlodion. Nid oes un brawd i farw o newyn tra byddo tammaid o fara yng nghymydogaeth cariad. Bydd pob drws yn agored, cariad yw'r allwedd sydd yn ei agor: groesaw i bob bwrdd; cariad sydd yn gwahodd; a'i iaith yw, "Deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian ac heb werth." Cyfnod rhyfedd! Amser dedwydd! *Arian*-garwch, gwreiddyn pob drwg, wedi darfod: neu yn hytrach, cariad at arian wedi cael ei droi yn gariad at ddyn. Nid *arian*-garwch, ond *dyn*-garwch mwyach. Fy Nuw mawr, gwawried y boreu'n fuan; deued yr amser yn glau pan fo'r egwyddor hon yn egwyddor lywodraethol yn meuwes pob dyn! Ond, mi glywaf lais distaw main y gwirionedd dwyfol yn attebb, "Os yw dy weddi'n gywir, dy ddymuniad yn bur, bydd ffyddlon, eithaf ffyddlon i'r gwirionedd, a'r *dydd a ddaw*. Daw, fe ddaw'r cyfnod hyfryd wed'yn. Ffyddlondeb ynte, fobl, ffyddlondeb, nid i bob athrawiaeth ond i'r gwirionedd; nid i Baganiaeth, Caltiniaeth, Undodiaeth, nac un *aeth* arall yn y byd, ond mor belled ag y byddont wedi eu seilio ar y gwirionedd. Ffyddlondeb i gyfeiliornad a ddyg ddinystr gydag ef; ond ffyddlondeb i'r gwirionedd a ddyg gadwedigaeth amserol a thragwyddol: ie, ffyddlondeb hyd ein bedd. Amen, felly y bo!

FFYDD GADWEDIGOL.

Sylwadau ar ysgrif y Dr. Lloyd yn Rhif. 55 o'r Ymofynydd.—(Parhad o tudal. 193.)

9. Gwnaethwn ddyfyniad yn fy llythyr diweddaf, yn dechreu, "Mae o'r pwys mwyaf i bob dyn fod yn ffyddlawn i'r wybodaeth uwchaf sy ganddo," (tud. 134.) Sylwedd y dyfyniad oedd mai dyledswydd dyn yw bod yn ffyddlawn i'r goleuni y mae wedi cyrhaedd iddo trwy ddyfal a chydwybodol a doeth-ddefnyddio y galluoedd a'r cyfleusderau yn ei feddiant. Ei fod mor bell ag y gwna hyn yn ddieuog—cadwedig gerbron Duw. Nad oes ragor i'w ddysgwyl yn rhesymol oddiwrth neb, boed Bagan neu Iuddew, Calvin neu Undodwr, na bod yn "ffyddlawn, yn hollol ffyddlawn i'r hyn sy fwyaf yn ol Duw i'w enaid ef ei hun," fel y mae wedi bod yn alluog i'w ddadguddio yn yr iawn ymarferiad o'r talentau a'r manteision a yn ddiriedwyd iddo. Tyr y Dr. allan, "Ffordd newydd a hawdd iawn yw hon i *gadw dyn!*" Dywedaf inau: os nad rhyw air i wawdio dyn ag ef yw "cadwedigaeth," ac os nad yw y peth prinaf yn holl greadigaeth "yr Hwn sydd yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd;" *hen* ffordd yw hon, yr hon ffordd y mae plant dynion wedi bod yn tramwy ar hyd-ddi o'r dechreuad. Gyda golwg ar ei bod yn "hawdd," addefaf yn rhwydd nad yw mor anhawdd ag i fod yn ammhossibl, etto nid oes dim a ddymunwn yn fwy, nid oes dim a ddygai oddiamgylch fwy o gyfnewidiad er gwell mewn cymdeithas na bod pob dyn yn ffyddlawn fyw i fynu i'r goleuni uwchaf sy ganddo. Mae yn wir na ddywedais mai bod dyn yn ffyddlawn i Undodiaeth yn unig sydd yn cadw, ac na safais i fynu â geiriau Credo a adwaenom oll yn fy ngenau gan ddweyd: "Yr hon Ffydd [Undodaidd] onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog, diammeu y collir ef yn dragywydd." Ni ddywedais hyn, am na chredaf mai ffyddlondeb i Undodiaeth yw'r unig ffordd i fod yn gadwedig. Nid cyhoeddi hyn "yw fy ngwaith yn y pwlpit." Ceisiaf anog fy ngwrandawyr i chwilio am y gwirionedd a dal eu hunain yn agored i bob tywyniad o hono; ar yr un pryd hyd nes y caffont oleuni gwell gwasgaf arnynt y dirfawr bwys iddynt fod yn ffyddlawn i'r goleuni sydd eisioes yn eu gafael. Nid wyf bid sier yn eu hanog i "*anffyddlondeb*" i'r goleuni uwchaf sy ganddynt. Nid wyf yn arfer dweyd wrthynt mai "barn gywir" a'u ceidw, gan y gwn fod y gair hwn mor ddau-feddwl ag unrhyw air a fathwyd erioed, ac y credaf nad yw y *dogma* hwn ond *nostrum* neu grachfeddyginiaeth sectau a phersonau a honant fod ganddynt *hwy* y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir. Nid yn wymais erioed fod y gwir hollol yn feddiant i mi. Ymofynydd y gostyngedig ddymunwn alw fy hun. Pregethaf yr hyn sydd i fy rheswm a fy nghydwybod i yn wir, a dymunwn ofyn i fy ngwrthwynebydd a wna ef yn amgen. Sonia am y "gwr ffol" yn y Bregeth ar y Mynydd. Wrth droi at y geiriau ni chaf air o grybwylliad am "farn gywir." Y gwr doeth oedd y sawl fuasai yn gwrando geiriau'r Iesu ac yn eu *gwneuthur;* y gwr ffol oedd yr hwn fuasai yn eu gwrando, gan eu derbyn o ran dim a wyddom ni i'r gwrthwyneb, fel athrawiaeth iachus, ond *heb eu gwneuthur.* A chanol-swn addysg yr Iesu oedd yr hyn a gawn yn y bregeth oddiog hon: "gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw."

10. Yr oeddwn wedi "sylwi" ei fod yn osodiad mor addefedig â diareb mewn ysgrifenwyr Undodaidd 'nad yw cadwedigaeth yn troi ar gywirdeb barn.'" Dywed yntau: "Nid ydwyf fi yn proffesu i fod yn attebol am

bob ffoledd ag y mae pob un ag sydd yn *galw* ei hun yn *Undodwr* yn euog o hono." Gwir iawn. Ni ddymunwn i er dim ei wneyd yn attebol am ragor nag a ddywed ef ei hun. Nid wyf yn y mesur lleiaf am ddefnyddio awdurdod enwau uchel yn lle ymresymiad. Ond y mae'n rhyfedd os nad yw y fath ddynion â'r Dr. Richard Price, David Jardine, Dr. Enfield, William Gaskell, J. James Tayler, Livermore, a H. W. Crosskey, a thorf o rai eraill yn deall pa beth yw Undodiaeth cystal a nemawr. Nid yw y Dr. heb fod yn hysbys y deil mwyafrif yr Undodiaid yn y wlad hon gyda mi ar y pwnc hwn o "gywirdeb barn." Ynddo ei hun nid yw hyn o gymmaint pwys, ond yn y cyssylltiad presenol, pan y sonia ef am rai yn "*galw* eu hunain yn *Undodiaid*," nid ammhriodol, dybygwn, yw gwneyd y sylw.

11. Yr oedd y Dr. wedi dal: *(a.)* "Heb ddyfod at y Tad nis gellir bod yn gadwedig;" *(b.)* "Nis gellir dyfod at y Tad ond trwy Iesu Grist." Darfu i mi ddweyd fy mod yn anghyttuno a'r ail osodiad. Ar hyn geilw'r Dr. sylw'r darllenydd at y ffaith fy mod yn anghyttuno a "*geiriau Crist* ei hun." Gwn mai cyhuddiad brawychus yng ngolwg y cyhoedd yw y fath un a hwn. Ond peidied neb a dychrynu. Yng nghwrs dadl teflir allan awgrymiadau o'r fath hyn weithiau. Nid wyf yn meddwl fod na'r Dr. na mi *am* anghyttuno a geiriau Crist. Gallwn ffaelu eu cyd-ddeall, a gall na fydd i ni bob amser gyd-farnu pa rai ydynt ei wir eiriau.

Yn anffodus mae'r cyhuddiad dwys hwn yn taro gyda'r un nerth yn erbyn y Dr. ag yn fy erbyn i; oblegid, fel y ceir gweled yn union, mae yn euog o ddweyd yr un peth ag a ddywedais i. Er iddo honi yn ei ail lythyr "nad yw Ffydd Gadwedigol yn perthyn i neb ond i Grist a'i wirioneddau," gan ddyfynu'r geiriau "nis gellir dyfod at y Tad ond trwof fi;" er iddo yn yr un llythyr ysgrifenu bagad o bethau yr un mewn ystyr ac yspryd a Chyffes Ffydd Westminster pan ddywed: "Athrawiaeth dra niweidiol ac adgas yw hono, y gall dynion heb fod yn proffesu y grefydd Grist'nogol gael eu cadw mewn unrhyw ffordd yn y byd, boent hwy mor ymröus ag y mynont i ffurfio eu bywydau yn ol goleuni natur a rheolau y grefydd hono a broffesant;" er iddo wneyd hyn yn ei lythyr diweddaf, fel pe yn cael ei frawychu gan swn ei lais ei hun, newidia ei dôn yn rhyfedd. Mae o'r un feddwl a Pedr (Act. x. 34, 35), ac yn dal "na fu y Paganiaid erioed ac nad ydynt yn awr heb fantais am gadwedigaeth. Yr oedd synwyr a deall ynddynt, a llyfr gwerthfawr Natur ganddynt. Yr oedd y cyfryw yn foddion cadw ym mhob oes o'r byd," [tud. 161]; ïe, pan nad oedd na Christ na Thestament Newydd. Drachefn [tud. 119] "mae rhinwedd a daioni yn y byd erioed, a ble bynag y mae'r cyfryw yn tyfu yno y mae cadwedigaeth a dyogelwch." Eto gwedsai unwaith, "Heb ddyfod at y Tad nis gellir bod yn gadwedig, ac nis gellir dyfod at y Tad ond trwy Iesu Grist." Barned y darllenydd ai nid yw yn dweyd yn gywir yr hyn y'm condemnia i am ei ddweyd. Fel os wyf fi yn anghyttuno a geiriau Crist, y mae yntau hefyd. Anhawdd i mi beidio a chofio'r geiriau: "Diesgus wyt ti, O ddyn, pwy bynag wyt yn barnu: canys yn yr hyn yr wyt yn barnu arall yr wyt yn dy gondemnio dy hun: canys ti yr hwn wyt yn barnu, wyt yn gwneuthur yr un pethau."

12. Cymer sylw byr o'r hyn a ofynais am Abraham. Addefa iddo gael ei gyfiawnhau neu ei gadw trwy lwyr "argyhoeddiad o wirionedd addewidion Duw," nad beth oedd yr addewidion hyn. Yn awr, mae un o ddau beth yn canlyn: Mae Ffydd Gadwedigol yn cyrhaeddyd ym mhellach na "Christ a'i

wirioneddau;" neu fe gadwyd Abraham gan ryw Ffydd nad oedd yn Ffydd Gadwedigol. Dewised y Dr. yr un a fyno.

13. Ceidw fy ngwrthwynebydd ei bethau goreu nes dyfod ym mlaen i son am resymmeg. Yr oedd, fel y gwna'r darllenwyr gofio, wedi dwyn yr adnod, "Pe byddai genych ffydd megys gronyn o had mwstard" ym mlaen er "diddymu fy ngosodiad i," sef fod Ffydd Gadwedigol yn perthyn i bob dyn. Dyma lle'r oedd honiad cyffredinol ar fy nhu i, a gwadiad neillduol ar du'r Testament Newydd. Fel pe gwedswn i: "Mae pob llygad yn gweled," tra'r Testament Newydd yn dal: "Nid yw llygad nodwydd yn gweled." Dyna hi'n salw o fyd. Gwadiad neillduol y Testament Newydd yng ngafael a gwddf fy honiad cyffredinol i. Pan welais bethau yn y drych hyn, da oedd genyf fod â fynwyf ag un oedd yn deall rhesymmeg. Adgofiais ef o reol sylfaenol mewn rhesymmeg y dylasai'r gair Ffydd gael ei ddefnyddio yn gywir yn yr un ystyr yn y ddau osodiad; na thal'sai defnyddio geiriau dau-feddwl, megys llygad creadur byw yn un, a llygad nodwydd yn y llall. Yn awr nid bychan o waith oedd hyn, a theimlodd y Dr. hyny. Pan geisiais ganddo ddangos fod i'r gair Ffydd yr un ystyr yn y ddau osodiad, wele ei atteb: "Nage, nage, fy ngwaith i yw profi nad oedd Ffydd yng ngenau Crist yr un peth neu yn gyfystyr a'r gair Ffydd yn ol meddwl Mr. T. [tud. 161]. "Ei gymeryd yn ganiatol wnaethum i, er mwyn rhesymiad, i fod Ffydd Gadwedigol yn gyfystyr gan y ddau er dangos gwrthuni haeriad fy nghyfaill." Dyna gyffes onest. Mae yn amlwg mai ei gymeryd yn ganiattaol a wnaeth pe na buasai genym ei addefiad ei hun. Ond llwybr rhyfedd i ymresymu yw cymeryd yn ganiataol y peth y dywed yn y frawddeg o'r blaen mai ei waith oedd ei *brofi*. Rhof engraifft neu ddwy o'r dull a gymer y Dr. er gwrthbrofi fy honiad cyffredinol i. Bwrier fod yr honiad cyffredinol hwn yn cael ei wneyd: Nid oes gan neb hawl i faddeu pechodau ond Duw yn unig. Ffolineb i gyd, medd y Dr.; trowch i Matth. ix. 2, lle y dywed Crist, "Ha fab, maddeuwyd i ti dy bechodau." Dyna wadiad neillduol: Crist yn maddeu pechodau, Ië, ond a yw'r ymadrodd "maddeu pechodau" yn cael ei ddefnyddio yn yr un ystyr yn y ddau osodiad? "Fy ngwaith i yw profi hyny," medd y Dr., "ond yr wyf yn ei gymeryd yn ganiataol." Drachefn, bwrier fod rhywun yn gwneyd yr honiad cyffredinol hwn: Joseph, priod Mair, oedd Tad yr Iesu. "Dim o'r fath beth," medd y Dr.; "trowch i Ioan vi. 38: "Myfi a ddisgynais o'r nef, neu i ryw un o blith y llawer o fanau lle y geilw Crist y Goruchaf yn *Dad* iddo." Ië, ond profwch fod y gair "Tad" yn cael ei ddefnyddio yn yr un ystyr yn y ddau osodiad. "Fy ngwaith i yw profi hyny," medd y Dr., "ond yr wyf yn ei gymeryd yn ganiataol." Yn gywir yn y modd yna addefa'r Dr. i mi mai ei "waith ef yw profi nad oedd Ffydd yng ngenau Crist yn gyfystyr a'r gair Ffydd yn ol fy meddwl i," ac a'r un anadl dywed iddo gymeryd hyn yn ganiataol er mwyn rhesymiad. Fel hyn ei ffordd fer ef o brofi yw cymeryd yn ganiataol.

Yr wyf wedi ceisio bod yn fyr ac wedi gadael allan lawer o bethau y caraswn ymhelaethu arnynt, yn neillduol ar bwnc y "cywirdeb barn" ag y gwneir cymmaint o hono. Ofnaf fy mod eisioes wedi myned yn rhy faith. Nid y fi oedd yr ymosodydd, a thybiwn mai iawn oedd i mi amddiffyn fy hun. Gwedais rai pethau, dichon, y buasai cystal eu bod allan; o hyn yr wyf yn sicr fod llawer o bethau allan y buasai profiad a doethineb helaethach na'r eiddof fi yn eu gosod i mewn. Nid oes genyf ond crefu ar y

darllenwyr i gymharu, at eu hamdden, y llythyrau ar y ddwy ochr, a barnu drostynt eu hunain. Nid mwy gofidus gan neb o'r darllenwyr na chenyf fi fod nerth y Dr. wedi ei ostwng ar y ffordd gan afiechyd trwm. A bod iddo deimlo nawdd y nef yn ei gystudd yw gweddi ddiffuant yr ysgrifenydd.

WILLIAM THOMAS.

BEDD-ARGRAFF IOLO MORGANWG.

MR. GOL.—Mae eich gohebydd, DARLLENYDD CYSSON, (tud. 194) am gael fy marn i ar y ddau gopi o fedd-argraff Iolo. Peth pur anhawdd yw penderfynu pa un yw y cywiraf o ddau gopi, y rhai ydynt i'm tyb i eill dau yn anghywir; ac y mae yn fwy anhawdd byth yn Nghymru gan nad oes un swyddfa yn argraffu ysgrifau yn gywir fel y danfonir hwynt. Hefyd, nid yw beirniad hanesyddol yn prisio am roddi barn rhwng copiau, tra mae yr ysgrif wreiddiol, yn ol yr honniad, ar gael. Os oes copi ar gael yn llaw-ysgrifen Iolo, ac wedi ei hamseru yn niwedd ei oes, dylai honno fod yn benderfyniad. Mae y sylw olaf o bwys, gan nad yw yn ddigon i'r copi fod yn llaw-ysgrifen yr hen fardd, heb fod rhyw ffordd i nodi ei hamseriad.

Ond i beidio amlhau geiriau, fy marn i yw—

1. Fod dau gopi gwreiddiol o wahanol amseriad a geiriad.

2. Fod naill ai y copiwyr neu yr argraffwyr wedi newid rhai pethau ym mhob un o'r ddau gopi, yn y *Byd Cymreig* a'r *Gwladgarwr*.

3. Fod ysgrif wreiddiol y copi yn y *Byd Cymreig* wedi ei ysgrifenu mor foreued a'r flwyddyn 1800, sef 26 o flynyddau cyn marwolaeth y Bardd; ac fod gwreiddyn yr un yn y *Gwladgarwr* yn ddiweddarach ac yn fwy awdurdodol.

Mae yr enw yn anghywir ym mhob un o'r ddau gopi. Enw tad Iolo oedd Edward neu Iorwerth. Yn y flwyddyn 1790 enwai Iolo ei hun yn Iorwerth ab Iorwerth *(Myv. Arch. i.* 582*)*; deng mlynedd yn ddiweddarach ysgrifenai ei enw Iorwerth ab Iorwerth Gwilym *(Ibid p.* 468;) a thybiaf fod y ffurf Iorwerth Gwilym yn unig yn fwy diweddar eilwaith. Mae copi y *Byd Cymreig* yn anghywir pan y gesyd *comma* rhwng yr ail Iorwerth a Gwilym, a chopi y *Gwladgarwr* yn cyfeiliornu yn yr un modd trwy osod *ab* rhwng Iorwerth a Gwilym, a thrwy hynny yn rhoddi tadogaeth amhriodol iddo.

Ydwyf yr eiddoch, &c., T. STEPHENS.

Merthyr Tydfil, Awst 12, 1863.

CARIAD A CHYFIAWNDER DUW.

"Ac y mae Duw yn berffaith gariad, oherwydd ei fod Ef yn berffaith gyfiawnder; ac yn berffaith gyfiawnder oherwydd ei fod yn berffaith gariad; oblegid nid yw ei gariad a'i gyfiawnder yn ddau beth gwahanol, yn ddwy ran gwahanol o Dduw, fel y dywed rhai, a dybiant fod cyfiawnder Duw i gael ei foddloni mewn un ffordd, a'i gariad mewn ffordd arall, ac a siaradant am Dduw fel pe byddai ei gyfiawnder yn ymladd yn erbyn ei gariad, ac yn dymuno marwolaeth y pechadur, ac wedi hyny ei gariad yn ymladd yn erbyn ei gyfiawnder, ac yn dymuno achub y pechadur: nid yw yn un rhyfeddod fod y rhai sydd yn dal athrawiaethau o'r fath yn myned ym mhellach etto, ac yn siarad fel pe byddai Duw'r Tad yn dymuno distrywio dynolryw, ac y

byddai wedi gwneuthur hyny oni bai i Dduw'r Mab fyned rhyngddynt *(interposed)* a dioddef ei Hunan yn lle hyny; nes y gallant ffansïo eu bod yn Gristnogion ac yn adnabod Duw, tra y maent yn gwneuthur defnydd o eiriau erchyll emyn neillduol sydd yn dywedyd—

"The streaming drops of Jesus' blood
Which calmed the Father's frowning face."

Gwareded Duw, a chadwed ni a'n plant rhag y fath chwedlau cableddus, y rhai fel chwedlau yr hen baganiaid, ydynt yn newid gogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig."—*Charles Kingsley's "Sermons for the Times," Vol. I. p.* 244.

JOGUTH CHUNDER GANGOOLY.

(Parhad o tudal. 166.)

Mr. Golygydd.—Pan oedd Joguth tua 13 oed cafodd ei gyssegru i'r swydd Brahminaidd. Gwnaed hyny ar ddiwrnod teg o haf, pan oedd cyfeillion o bell ac agos yn ymgynnulliedig, trwy dòri tri chudyn o'i wallt yn enw'r tri phrif dduw Brahma, Vishnw a Shiba. Wedi hyny eilliodd y *barber* ei ben a gosododd ddwy glust-fodrwy fechan yn ei glustiau. Ac wedi ymbil am bresennoldeb a chymmeradwyaeth a bendith cannoedd o dduwiau gosododd yr offeiriad edefyn gylch ei wddf. Yr edefyn hwn ydyw *badge* sanctaidd y Bahminiaid; y mae wedi ei wneuthur o gotwm, ac nid yw yn cael ei wisgo gan y *castes* isel. Yn nesaf amgylchwyd ef a mantell felen, cuddiwyd ei wyneb a gorchudd ac arweiniwyd ef i ystafell. Yr oedd yn arferiad i aros yn yr ystafell hon o dri i saith niwrnod heb weled un dyn o'r *castes* isel, yn ystod y rhai yr oedd yr Ail-enedig i ddysgu ei Shundhas—ffurfiau neillduol ò weddi. Ni bu angen i Joguth aros yno ond tri diwrnod am fod ei dad wedi gofalu yn mlaenllaw eu dysgu iddo. Yr oedd yn gorfod adrodd y gweddiau yma dair gwaith yn y dydd yn awr.

Yr oedd delw Krishto gan y teulu gartref, ac yr oedd yn gorfod addoli hwnw ddwy waith yn y dydd, heblaw delwau teuluoedd ereill yn achlysurol. Yr oedd yn y boreu yn gorfod myned allan i gasglu blodau i'r addoliad, ac wrth wneuthur hyny yr oedd llawer iawn o reolau y rhai yr oedd yn rhaid iddo i ddàl sylw arnynt. Yr oedd addoliad yn cymmeryd llawer iawn o'i amser, gofalu am flodau a bwyd i'r delw, ei olchi a'i sychu drachefn, a thalu mawl a gwasanaeth iddo, &c., &c.

Pan oedd Joguth tua 14 bu farw ei dad: pan ar ei wely angeu danfonwyd am offeiriad i fyned trwy'r gwasanaeth iddo. Wedi i hwnw orphen gwnaeth tad Joguth y sylw canlynol: "Gyfaill, nid hawdd gwerthu nodwyddau i ôf, y mae'r hyn a ddarllenasoch i mi wedi ei fwriadu *yn neillduol* i achlysur arall gwahanol iawn i'r un presennol." Pan oedd ar farw dywedodd wrth ei wraig mai y peth gwerthfawrocaf oedd ganddo i adael iddi oedd Duw, ac yn nesaf ato ef y "tri pherlyn"—ei dri mab. "Y rhai hyn" meddai efe, "o'u iawn ddefnyddio a gyfarfyddant a'ch holl angenion." Estynodd ei frawd iengaf ei law yn garedig iawn i gynnorthwyo y weddw a'r amddifaid. Nid oedd y brawd hwn yn ddyn crefyddol ac yr oedd yn tueddu i ddilyn ffasiwn y gwyr mawr, ac am hyny ceisiodd gyda Joguth i roddi rhan o'i amser i ddysgu Saesneg: cafodd gyda myfyriwr ifanc o'r coleg Hindwaidd i roddi gwersi iddo. Daeth pedwar neu bump o rai bach ereill at Joguth, ac felly ffurfiwyd *class.*

Ond gan nad oedd gan yr athraw ifangc ond hanner awr i'w roddi iddynt, nid oedd ganddynt ond ychydig o siawns i ddod yn y blaen. Ar ei gynghor ef beth bynag danfonodd ei ewythr Joguth heb fod yn hir i ysgol Saesneg, yr hon oedd dan y llywodraeth. Cafodd ei osod yno yn y trydydd dosparth, ac yn fuan iawn wedi dod yno, fe ddysgodd fod athraw y dosparth hwnw yn hoff o ddefnyddio'r wialen yn aml ac hefyd yn drwm. Ymhlith y deg neu ddeuddeg o'i etholedigion anffodus yr oedd Joguth yn un. Rhyw dro, beth bynag, ar ol cael profi blas y wialen amryw ddiwrnodau o'r bron, penderfynodd, os y gallai yn rhyw fodd, i ymryddhau oddiwrth beth ag oedd yn ei olwg ef mor annymunol—peth nad oedd erioed wedi digwydd iddo o'r blaen. Ond y gwaethaf o'r peth oedd, nid oedd efe yn gwybod sut i barotoi ei wers; yr oedd arno eisieu cael help, ond nis gallai. Un diwrnod, gofynodd ei athraw iddo, os oedd efe yn studio ei wers gartref. Attebodd yntau na wyddai efe ddim beth oedd hyny—nad oedd efe byth yn agor ei lyfr yn un man ond yn yr ysgol—nad oedd ei gyfeillion ddim yn deall Saesneg, ac am hyny ddim yn alluog i roddi un cyfarwyddyd iddo. Cynghorodd ei athraw ef yn garuaidd sut i wneuthur, a dilynodd yntau ei gyngor, ac ymhen yr wythnos yr oedd yn un o'r rhai blaenaf yn ei ddosparth. Wedi cael ei osod unwaith ar ben y ffordd, aeth rhag ei flaen yn llwyddiannus iawn, a hyny ynghanol llawer o anhawsderau. Cadwodd i fyny ei sefyllfa anrhydeddus yn ei ddosparth er fod ei ewythr yn gwrthod prynu iddo y llyfrau angenrheidiol yn agos i gyd. Nid oedd ganddo ond pedwar o'r naw a ddefnyddid yn y dosparth.

Yn anffodus i Joguth a'r teulu, ac er anghysur mawr iddo ei hunan, fe briododd ei ewythr tua'r amser hwn. Ei fam yng nghyfraith er hyny, ac nid ei wraig, a fu yr achos o'r holl anghysur yma. Cafodd Joguth heb fod yn faith wedi hyny ei dynu o'r ysgol, a mawr fel yr oedd yn teimlo ei golled. Yr oedd yn gweled y rhai bach oedd yn ieuengach nag ef, y rhai yr oedd efe ychydig yn ol yn alluog i'w cynnorthwyo mewn llawer ffordd, yn myned rhag eu blaen yn gyflym, tra'r oedd efe yn aros bron yn yr un fan. Yr oedd ysgolion rhad yn Calcutta, ond yr oedd y ffordd yno yn rhy bell, a'r gost yn ol ac yn mlaen yn ormod. Gorfu arno aros gartref tua blwyddyn heb wella fawr ar ei Saesneg. Wedi hyny derbyniwyd ef i amryw ysgolion, ond ni wnaeth efe fawr cynnydd yno am tua phump neu chwe' mis. O dan bob amgylchiad yr oedd wedi bod hyd yn hyn yn selog iawn yn cyflawni ei ddyledswyddau crefyddol. Yr oedd ei ddefosiwn yn cynnyddu fel yr oedd yn myned yn ei flaen yn y llwybr a dorwyd allan iddo gan ei dad. Yr oedd ei gariad at y duwiau yn cryfhau, ac yr oedd darllen eu bywydau yn dyfod o hyd yn felusach melusach ganddo. "Yr oedd fy nghred yn y duwiau," meddai efe, "mor gadarn, fy ffydd yn eu gallu amddiffynol mor ddiysgog, fel yr oeddwn yn credu y gallaswn gadw cymdeithas a hwy, a gweled eu gwenau yn dysgleirio allan o lygaid a geneu y delwau. Ar Shiba yr oeddwn yn gweddio am ddysg; ar Luckhy am gyfoeth; ar Doorga am ymwared rhag peryglon; ar Krishto am nefoedd,—ac yr oeddwn yn teimlo yn dra sicr o'u cael. * * Yn ystod addoliad yr hwyr, pan oedd cannoedd o oleuadau yn llosgi, a'r band yn chwareu, a'r arogl-darth yn llanw'r lle â'i bereidd-dra, a llawenydd yn tywallt ei swyn dros bawb, safwn yn barchus o flaen y delw, edrychwn yn ddifrifol yn ei wyneb, adroddwn weddiau dystaw, a thrwy hyny teimlwn fy hunan yn ddedwydd. Ar y diwedd ymgrymwn, ac weithiau gorweddwn ar y llawr mewn ymostyngiad."

Tra'r oedd efe fel yma ag holl serchiadau ei galon yn rhwym wrth dduwiau ei wlad, dechreuodd y wawr hòno dòri, yr hon oedd i doddi ymaith bob rhwymyn ag oedd yn ei gyssylltu ef a hwy ynghyd. Clywodd am y cenhadwr Crist'nogol enwog, Dr. Duff—ei fod ef a'i gyfeillion yn llwyddo i wneuthur Crist'nogion o lawer iawn o'r iengetyd Hindwaidd. Nynodd hyny ddygasedd Joguth i gynddeiriogrwydd gwyllt, a dymunai weled Crist'nogaeth yn marw o'r byd, fel na fyddai iddi ysbeilio teuluoedd Hindwaidd o'u heddwch a'u llwyddiant, trwy ladrata iengetyd o'u cartrefleoedd a'u harwain yn bendramwnwgl i bechod ac anfoesoldeb a thrueni. Canys meddwl yr Hindwad am Grist'nogaeth yw hyn: y rhaid i ddyn ifange cyn bod yn Gristion i ymddwyn yn anghariadus tuag at ei rieni, a bwyta cig anifeiliaid, cig eidion a chig moch, &c., y rhai y mae yr Hindwad yn eu cashau yn fawr iawn, ac yfed gwin, a pheidio golchi ei enau ar ol bwyd, fel y gwna yr anifeiliaid, ac ymwadu a phob peth sydd yn dwyn yr enw Hindw, nad pa mor brydferth yw. "Yn awr," meddai ein cyfaill Joguth, "os yw y rhai hyn yn sylweddolion Crist'nogaeth, pa ryfedd fod Hindwaid yn ei hofni! Ond diolch i Dduw, *nid yw y rhai hyn* ranau o grefydd Crist; 'does ond ychydig neu ddim a fynont a hi." Peth arall sydd yn peri eu bod yn cashau Crist'nogaeth yw, fod ymddygiad ei phroffeswyr mor groes i'w proffes. Eu bod a'u tafodau yn siarad tangnefedd a chariad ac ewyllys da, ond yn eu hymddygiad yn falch ac yn hunanol, yn waedwyllt, yn rhyfelgar, ac yn anonest. "Dyna, Joguth," meddai ei fam, "yr ydych yn siarad am grefydd Shahebs (Crist'nogion) wrthyf: gosodwch hi ar y seld acw; 'does ganddynt hwy ddim crefydd! Beth! beth ddywedasoch, 'Ac i'r neb a fyno ymgyfreithio â thi a dwyn dy bais, gad iddo dy gochl hefyd!' Geiriau hyfryd iawn yn wir! O Joguth, beth mae'r Shahebs yn ei wneuthur? A ydynt yn prisio gronyn am danynt? Na! Eu crefydd yw ysbeilio y sawl nid oes dim a fynont a hwy.' * * Mawr yr hoffwn weled eu brenhines a dywedyd wrthi, 'Cywilydd i'ch deiliaid! Y maent yn ymladd, yn cweryla, yn ysbeilio ein gwlad ni. Ni wyddoch chwi fawr pa beth y maent yn ei wneuthur, pan y byddont allan o'ch golwg. Pan y byddont yn myned i wlad bell y maent yn anghofio yr addysg a gawsant gartref,'" &c.

Yn ofni ac yn cashau Crist'nogaeth, penderfynodd Joguth i chwilio allan ei gwir neillduolion, gan deimlo yn dra sicr eu bod yn blentynaidd ac yn dwyllodrus dros ben, ac y gallai yn hawdd ddynoethi eu cyfeiliornadau. Ond sut oedd cael gafael ar y llyfrau angenrheidiol at hyny o waith. Yr oedd yn rhy ofnus i fyned at y cenhadwyr; yn gyntaf, nis gallai siarad Saesneg; ac yn ail, yr oedd yn eu hofni fel "lladron plant" fel y cyfrifai yr Hindwaid hwy. Ar ddiwrnod gwelodd *dracts* gan rai o'r *castes* isel, y rhai oeddynt wedi eu cael gan rhai o'r Crist'nogion. Llwyddodd gael un o'r rhai hyn yn cynnwys "y bregeth ar y mynydd." Darllenod hi drosodd a throsodd. Cafodd ei siomi nad oedd yno ddim o'r athrawiaethau ffol a thwyllodrus a ddysgwyliai. Yr oedd arno eisieu ychwaneg yn awr, ac fe'i cafodd; ond yr oedd y rhai hyn yn cynnwys mwy o athrawiaethau dynion a llai o'i eiddo Ef yr hwn a ddysgodd ei grefydd ym mynwes y Tad. "Darllenais y traethawd cyntaf, yn cynnwys y bregeth ar y mynydd yn ofalus," meddai efe, "a daethum mor gyfarwydd a llais Crist, fel y gallwn ei adnabod o ganol y dorf. 'Y mae'r defaid yn adnabod llais eu bugail." Clywodd ym mhellach am lyfr a elwid "Y Beibl," a'i fod yn cynnwys hanes bywyd yr Iesu yn llawn.

Mawr oedd ei hiraeth yn awr am gael gopi o hwn. Chwiliodd yn hir am dano, ond heb lwyddo. Ond daeth bachgen ato un diwrnod â phapurau a llyfr, yn ceisio ganddo wneuthur barcutan papur *(kite)* o'r dail. Er mawr lawenydd iddo, tródd allan mai hwn oedd y llyfr y bu yn chwilio am dano cyhyd — bywyd Crist, gan bedwar efengylwr—y Testament Newydd! Gwnaeth farcutan â'i bapur ysgrifenu ei hun, a rhoddodd y crwt y llyfr glas iddo yntau yn eu lle. Yn awr dechreuodd tymmor pwysig—chwilio ac ystyried a myfyrio geiriau yr Iesu. Ymhlith geiriau ereill a gyffyrddasant a'i galon, oedd galwad Crist ar y tlawd a'r trallodus i ddyfod ato—"Deuwch attaf fi," &c., Matt. xi. 28—30. "Pwy yw hwn," meddai Joguth, "sydd yn addaw *gorphwysfa* heb un tâl, fel y gwna'r duwiau Hindwaidd? Yn ofalus y dilynais Grist yn ei holl deithiau, gwrandawais arno ar y mynydd, gwelais ef yn gwella'r claf ac yn bwrw allan gythreuliaid, clywais ef yn gorchymmyn wrth y mor cynddeiriog "gostega, dystawa," sylwais arno wrth ei fwrdd yn yr oruwch-ystafell, gwelais ei ddalfa, ei dreial, ei groeshoeliad, a'i fuddugoliaeth ar angeu."

Er mwyn cymmharu Crist'nogaeth ag Hindwaeth, cymmerodd brif byngciau pob un o'r ddau. 1. Creawdwr y bydysawd, pwy yw efe? Pa berthynas sy rhyngddo a'i greaduriaid? Pa le y mae? Pa fodd y mae ei addoli? &c. Yr oedd cred yr Hindwaid yn gwahaniaethu gyda'r gwahanol *gastes*, &c. Yr oedd y Brahminiaid dysgedig yn tynu eu cred o'r Vedas; ereill a'i derbynient oddiwrth draddodiad; a'r *castes* isel naill ai ni wyddent ddim am danynt, neu 'roedd yr ychydig a wyddent yn wrthun. Dywed Crist am ein Creawdwr ei fod yn Fod Mawr—Duw—ac mai un yw. Derbyniodd yr athrawiaeth hon, meddai efe, am ei bod yn cadarnhau ei feddwl am Greawdwr. Yr oedd er yn ifange wedi meddwl am dano, ond nis gwyddai pwy oedd y Bod hwnw. Dywedai ei gydgenedl fod Bromho yn Wneuthurwr pawb, ond ei fod ef hefyd yn tarddu oddiwrth Bishto. Yr oedd Shiba yn cael ei alw yn *dad* a'i wraig Doorga yn *fam*, ac yr oedd eu dwy ferch yn cael eu galw yn fam hefyd, y rhai yn ol rheolau cyffredin a ddylent gael eu galw yn chwiorydd—"yr oedd hyn," meddai Joguth, "yn ymddangos i mi yn wrthun." Yr oedd Krishto hefyd yn cael ei gyfrif yn dad i ni. 'Nawr y mae'r Dysgawdwr mawr yn dywedyd nad oes genym ni ond un Tad yn y nefoedd, sef Duw. Pan ddysgais gan Grist, mai un Bod Mawr oedd fy Nghreadwr, ac er fod ei ardderchogrwydd yn anfeidrol, a'i ddoethineb yn annirnadwy a'i allu yn annherfynol, a'i sefyllfa yn uchel, ei fod etto yn Dad i ni, nid oedd dim terfynau i'm llawenydd. Daethum i wybod fod ceisio adnabod y Creawdwr yn Bromho a Bishto, &c., mor ddyrysawl a chwilio rhywbeth yn ystafelloedd tywyll Mammoth Cave. Ond yr oedd Crist yn sefyll ger fy llaw megys goleuni disglaer, ac yn dangos y ffordd feraf, hawddaf, at fy Nuw, gan ddywedyd, "Myfi yw y ffordd," a "Myfi yw y goleuni." Gynt meddyliem y gellid myned at Dduw mewn gwahanol ffyrdd, ond yn awr yr oeddwn yn teimlo yn argyhoeddedig o'r fantais o gael myned i mewn trwy'r porth cyfyng, troedio yng nghamrau Crist a dilyn arweiniad yr Arweinydd nefol."

(Fw barhau.)

Gohebiaethau.

CYFARFOD CWARTEROL YN ONNENFAWR.

Bydded hysbys i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD fod Cyfarfod Cwarterol yr Undodiaid i gael ei gynnal yn Onnenfawr, gerllaw Llandilo, ar ddydd Mercher a Iau, y 30ain o Fedi a'r laf o Hydref. Dechreua y cyfarfod am chwech o'r gloch prydnawn dydd Mercher, ac am ddeg boreu dydd Iau; bydd y Parch. Owen Evans i bregethu y bregeth dydd Iau. Y pwnc ar ol y bregeth fydd, "Beth yw Cristion." Hoff fydd gweled llawer o weinidogion ag eraill yno.

TITUS EVANS.

Awst 24, 1863.

BARCH. SYR,—Byddwch garedicced a rhoddi lle i'r hyn a ganlyn yn yr YMOFYNYDD. Yr eiddoch, &c., S.

GAIR AR BA BETH YW CRISTION?

Cawsom yn ddiweddar fawr olrhain ar y pwnc hwn ynghyd a llawer o foddlonrwydd yn sicr. Yn ddiamau y gwelwn mai canlynwr Crist yw y Cristion. Mae dyn a fo'n dilyn ei lwybr yw yr hwn sydd ganddo gariad, amynedd, ffydd a gobaith yn yr "Anweledig" Ond cofiwn hefyd am ostyngeiddrwydd Crist. Pa fodd y cafodd Ef ei wawdio! Goddefwn ninau bob dirmyg ac anmharch! Na fyddwn barod i farnu ar neb. Na *rag*farnwn. Tebygwn i mai Cristion yw yr hwn a oddef anmharch ac a ddiffydd ymryson os bydd yn ei allu. Ac yn ol fy neall gwan i, y dyn a orfoledda mewn anmharch unrhyw ddyn, nid oes Cristionogaeth ynddo. Ni fynwn i y carai Crist yspryd pleidgar. Edrychwn am yr hen Samaritan, yr hwn a rydd ei law i bawb: dyma y Cristion. Ond pa le y mae? Dymunwn yn fawr gael rhyw sicrwydd o'i adnabyddiaeth. Fe neidia yr Anghrist i'r ochr poblogaidd er mwyn dangos anmharch i un bach! Yn sicr ymddengys i mi fod yr hen gyfraith gynt yn cael ei chario yn y blaen yn [illegible] i'r tipyn: "llygad am lygad a dant am ddant." Pa le mae y "drugaredd?" "Gwyn [illegible] y trugarogion." Dyma lais sy'n swnio yn beraidd. Ardderchog pe caem wneuthurwyr didwyll a rhyw ddysgyblaeth, fel gallwn ddangos ychydig foesoldeb dros fynyd cyn y byddo'r bedd yn ein llyngcu! S.

Y SABBATH.

At Olygydd yr Ymofynydd.

SYR,—Y mae yn deilwng o sylw na wnaeth Crist erioed ddiddymu y Sabbath. Ni wnaeth fynegu i ddynion y byddai yn ddiwrnod iddynt siarad geiriau eu hunain ac i geisio eu gogoniant eu hunain. Ni wnaeth awgrymu ei fod wedi ei fwriadu i fyned heibio. Ni ddywedodd ei fod yn myned i roddi terfyn iddo. Pe buasai y Sabbath ar gael ei ddiddymu ni wnelsai gymmeryd gymmaint bwys i egluro y ddeddf hono. Nis gadawodd hyd yn nod ei fradychwyr i feddwl ei fod yn iselhau hawliau y Sabbath. Ymdrechasant hwy ei wneyd allan yn dòrwr, ond nid allasent. Pan y byddai yn ymddyddanu â hwynt ni allent roi ateb am y peth hyn. Pan y dygasant Ef i'r llŷs, ceisiasant dystion i'w brofi yn droseddwr y gyfraith; ond ni ddygwyd cyhuddiad mewn cyssylltiad a'r *dydd*. Ni wnaeth ond diarddelu addysgiadau y Phariseaid. Bwriodd ymaith yr ysbwrial ag oeddynt hwy wedi bentyru oddiamgylch i'r dydd hwnw; ond gadawodd y golofn-goffadwriaeth gyssegredig ei hun heb ei distrywio. Y mae yn wir y gallasai symmud y golofngoffadwriaeth i fan arall; y mae ac yr oedd yn ei allu os ewyllysiai wneyd hyny i argraffu ar-ysgrifen arni:—Y mae Sabbath yn aros, ond cedwir ef genym ar y *dydd cyntaf*. Pa mor bell y mae y Sabbath yn rhwym arnom ni? Pa beth ddylem wneyd, a pha beth ddylem beidio ar ddydd yr Arglwydd? Gofyniadau a ofynir gan lawer yw y rhai hyn. Ond y ffordd ddoethaf fydd i ni fynd ar un waith at wreiddyn y mater. Y cwestiwn mawr ydyw—A ydych yn caru y dydd? Os ydych yn ei garu ni wnewch ofyn pa mor bell y gallaf teiddio ymddifadu fy hun o'r [illegible] hono.

Y Sabbath [illegible] dwrnod yw ag y mae'r Jehovah [illegible] i ni: mae wedi ei roddi [illegible] os mynir ei werthiaw[illegible] ei dderbyniad [illegible]

yn iawn. Y mae yn ddydd i orphwys ac hefyd yn ddydd i dderbyn addysg ac i addoli.

Dymunir gweled y sylwadau uchod yn yr YMOFYNYDD nesaf, os yn gyfleus.

Yr eiddoch yn ostyngedig,

DIENW.

GWELLIANT GWALLAU.

Yn y rhifyn diweddaf, tud. 164, llin. 5 o'r pen, yn lle *os* darllener *ys;* tud. 166, llin. 8 o'r gwaelod, yn lle *ieuengctyd* darllener *ieuengctid,* ieuengct*yd* yw *dyn-ion ieuainge,* ieuengctid yw *maboed;* 3 llin. o waelod yr un tud. yn lle *Rhoddodd Duw,* &c., darllener Rhodd*ed* Duw iddi cyn anad*lo* hi.

Mr. GOL.,—Trwy eich caniatad dymunwyf hysbysu am yr ychydig wallau argraffyddol sydd yn fy nghan, "Y Ferch Rinweddol," yr hon a ymddangosodd yn rhifyn Mehefin, tudal. 147. Penill 3, llinell 2, yn lle chwedleu*an* darllener chwedleu*au*; pen. 4, llin. 2, yn lle wiw-l*on* darllener wiwl*an*; pen. 5, llin. 3, yn lle iddi darllener iddo; pen. 9, llin. 2, yn lle yn darllener gu. Fel hyn dylasai y linell hono fod—"Yn rinwedd gu ragorol."

HEDYDD MORGANWG.

Heolgeryy, Merthyr.

Hanesion Cartrefol a Chymreig.

Y WLADWRIAETH. — "Dedwydd," medd rhyw awdwr, "yw y wlad hono nad oes ganthi hanes;" gan olygu, dybygem, mai digwyddiadau yn cyfodi oddiar nwydau afreolus ac aflywodraeth, a rhwystrol i'r dedwyddwch cyffredinol sy'n gwneud i fynu gan mwyaf hanesiaeth gwledydd; ond bod y cysur a'r llwyddiant cyffredinol a gyfyd oddiar lywodraeth dda a chydymffurfiad â rheolau rhagluniaeth yn cymeryd lle yn dawel ac yn cael ei adael i ddystawrwydd. Y mae llawer hefyd yn ymddibynu ar drefn sefydledig. Ni fuasai genym fawr i'w gofnodi ar y pryd hwn am weithrediadau y llywodraeth, pe buasai gofod yn caniatâu. Y mae ein Brenhines a'r teulu Brenhinol, er ys rhai wythnosau, wedi cyrhaedd y Cyfandir, ac yn bwriadu aros yn Germany am ryw dymmor. Mae Tywysog Cymru a'i Briod yn Scotland; mae ein Seneddwyr yn wasgaredig yma a thraw; ond y mae y llywodraeth, yn eu habsenoldeb, yn cael ei dwyn ymlaen yn hwylus ac yn rheolaidd. Mae y Weinyddiaeth yn parhau i gadw ymddiried y wlad; ac yn matter y rhyfel annedwydd yn America y maent hyd yn hyn, er amryw rwystrau a phrofedigaethau, wedi gallu gochelyd pob achlysur rhyfel â'r Unol Daleithiau. Ac y mae pob lle i gasglu y byddant yn ofalus rhag rhuthro i ryfel cyfandirol yn achos Poland. Nid oes nemmawr o sôn yn awr am y caledi yn y gweithfeydd cottwn, yr hyn sydd arwydd dda; ond gwneir darpariadau ar gyfer gofyniadau y gauaf dyfodol. Ac os ceir tywydd mor ffafriol i gasglu yr ŷdau diweddar ag a gafwyd i'r rhai cynnar tebyg y trŷ y cynhauaf i maes i fod yn ffrwythlon a thoreithiog. Yr ydys wedi cael cynhauaf da yn America ac ar y Cyfandir. Ar y pryd hwn mae'r Eisteddfod Genhedlaethol yn Abertawe, a mân Eisteddfodau eraill yn tynu llawer o sylw y Cymry.

Y CYFANDIR.—*Poland.*—Ymddengys nad yw y brys-lythyrau a anfonwyd o Loegr, Ffrainge ac Awstria yn achos Poland wedi effeithio nemawr ar lywodraeth Rwssia, yr hon sydd yn parhau i ddangos anewyllysgarwch i dderbyn cynghor y tri gallu mewn perthynas i'r mesurau angenrheidiol er sefydlu cymmod a heddwch parhaus. Yn eu llythyr olaf y maent yn gyttunol yn rhybuddio Rwssia, os na dderbynia eu cynghor y waith hon, mai hi yn unig fydd yn attebol am y canlyniadau.

GERMANY. — Mae brenhinoedd a thywysogion Germany, ar wahoddiad yr Ymherawdwr Franz Joseph, newydd ymgyfarfod yn *Frankfort ar y Main* er cymmeryd dan eu hystyriaeth y mesurau mwyaf cymhwys tuag at sicrhau *undeb* a chydweithrediad gwahanol lywodraethau Germany. Mae brenin Prwssia, er cael ei wahôdd yn daer ac yn barchus, wedi

cadw ymaith ac hysbysu ei anghymeradwyaeth o'r mesurau a gynnygir gan Ymherawdwr Awstria. Deallir fod y cyfarfod i gael ei derfynu gyda dechreu Medi. Rhaid dyweyd fod y Kaiser ieuange wedi gwneyd cynnyg teg at gyrhaedd poblogrwydd yn y *caracter* o ddiwygiwr cenhedlaethol, ac at ennill a sicrhau y flaenoriaeth yn Germany; a pha beth bynag am lwyddiant ei amcanion yn y pendraw, mae y newyddion o Frankfort yn gyttunol ar y ffaith ei fod trwy ei hynawsedd a'i arweddiad tywysogaidd ar yr amgylchiad presenol, wedi tynu sylw a chymmeradwyaeth neillduol. Diau y bydd penderfyniadau y cyfarfod ynghylch cynnygiadau yr Ymherawdwr yn destun siarad a dadleuaeth; ond hwyrach, yn sefyllfa pethau yn bresennol, ni byddant o hyny yn llawer nes i gael eu gosod mewn grym. Wedi y cyfnewidiadau a sefydlwyd trwy rym y cledd gan Frederick II o Prwssia can mlynedd yn ol, ac ar ol hyny gan Napoleon I, braidd y disgwylir gweled adferiad o'r Undeb Germanaidd dan lywyddiad ac unbenaeth Awstria. Mae nerth a dylanwad Prwssia a'r taleithiau Protestanaidd yn y gogledd yn gorbwyso eiddo y taleithiau Catholig yn y Dehau.

AMERICA.—Nid oes fawr cyfnewid ar sefyllfa pethau, yn ol y newyddion diweddaraf. Er pob ymdrech i gymmeryd Charleston, mae yr Undebwyr hyd yn hyn wedi methu llwyddo. Mae byddinoedd Lee a Meade wedi bod yn gorphwys a achos y gwres mawr, heb fod yn mhell oddiwrth eu gilydd.

Priodwyd.

Awst 14eg, Mr. David Davies, *currier*, Llandilo, â Miss Elinor Jones o Frongelyn, plwyf Ystrad.

Marwolaethau.

Gorphenaf y 5ed, yn dra disymwyth, Richard, anwyl blentyn William a Jane Howells, Aberaman, yn agos i dair mlwydd oed. Dydd Mawrth canlynol claddwyd ef yn Aberdar. Yn ei angladd pregethodd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, oddiwrth y geiriau a welir yn Salm 33. 10.

Gorphenaf 29ain, yn Ffynnon-y-gog, ger Aberdar, yn 77 mlwydd oed, Mr. Rees Davies, neu Rhys Shon Dafydd fel ei gelwid yn fwyaf cyffredin. Y dydd o'r blaen aeth fel arferol wedi ciniaw i edrych dros ei dir, a chan ei fod, wrth bob tebygolrwydd, yn teimlo yn flinedig eisteddodd i lawr i orphwys ar ben clwyd, yr hon sydd dros bum troedfedd o uwchder. A thrwy ryw anffawd cwympodd i lawr yn ddisymwyth iawn, ac yn ol tystiolaeth y meddygon ag a fu yn ymweled ag ef dadgymalodd madruddyn y cefn *(spinal cord)*. Trwy drugaredd digwyddodd fod person gerllaw yn ei weled yn cwympo, yr hwn a redodd atto gydâ phob brys ac a'i unionodd, ac yn mhen ychydig amser wedi'n daeth atto ei hun, a siaradodd â'i deulu ynghystal ag amryw gyfeillion, mor synwyrol ac mor bwyllog ag erioed; yr hyn a wnai hyd o fewn chwarter awr i'w ymddattodiad. Yn mhen ychydig amser wedi iddo gael ei gario i'w dŷ a'i osod yn ei wely aeth yn hollol ddideimlad o'r canol i lawr, ac yn mhen 25 awr ni allai gyffro ond fel yr oedd yn cael ei gyffro yn ol ei gais. Digwyddodd y ddamwain anffodus o gylch tri o'r gloch y prydnawn o'r blaen, a bu mewn poenau angherddol hyd o gylch pump o'r gloch tranoeth pryd yr anadlodd yr anadl olaf. Gadawodd weddw a dau o blant (mab a merch) i wylo ar ei ol, ynghystal ag amryw berthynasau a chyfeillion mynwesol. Perchid ef yn fawr gan bawb a'i adwaenent; yr oedd yn ddyn at ei air bob amser—yn ddyn gonest, a pherffaith ddiragrith; yn wir, yr oedd yn ddiarebol felly am hyny o beth yn ei ardal. Teimla yr eglwys Undodaidd yn y Cwmbach hiraeth dwys ar ei ol, a hyny oherwydd colli o honi un o'i haelodau mwyaf ffyddlawn a didwyll. Dydd Sadwrn canlynol ymgynnullodd tyrfa luosog i'w hebrwng i dŷ ei hîr gartref yn mynwent eglwys y plwyf, a hyny mewn gwir ddiogel obaith am adgyfodiad yn y dydd olaf, yr hwn a ddygodd yr Iesu, Pentywysog a Pherffeithydd ffydd i'r goleu trwy'r efengyl. Cyn cychwyn o'r tŷ pregethodd y Parch. E. W. Lloyd oddiwrth y geiriau—"Yna Simon Pedr a'i attebodd ef, O Arglwydd, at bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau bywyd tragwyddol. Ac yr ydym ni yn credu ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw." Ioan vi. 68, 69.

"Heddyw yr y'm ar dir y byw,
Trwy gennad Duw mae hynny;
Ond pwy o honom oll y sydd
Yn siwr o'r dydd y fory?" L.

Awst 19eg, yn 80 mlwydd oed, John Michael, o Garreg-y-dwfn, gerllaw Llandilo, ar ol hir lesgaidd a gwendid corph. Bu yn aelod rheolaidd yn Onnenfawr am amryw flynyddau, a theimla y cyfeillion ymgynnulledig yno hiraeth ar ei ol. Gorphwysa ei ran farwol ynghladdfa eglwys Llandilo hyd nes y delo yr alwad gyffrous—"Feirw deuwch i'r farn." T. E.

Barddoniaeth.

FY MAM.

A gyfansoddwyd ar ol derbyn y newydd galarus o farwolaeth Mrs Eleanor Jones, Cwmavon, yr hon a symudwyd yn sydyn a damweiniol, Tach. 20, 1862.

Ei Phrynwr sugndynodd ei bryd,
Hiraethai o hyd am fyn'd ato;
Trwy ystod ei gyrfa ei gyd,
Ni thynnai ei threm oddiarno;
Ca'dd lawer ystorm yn ei dydd,
A phrofodd adegau hamddenol;
Aeth trwyddynt—"Perffeithydd ei ffydd,"
A'i galwodd i'w chartref drag'wyddol.

Rhyw feindlws edefyn, fel tant
Dynhëid gan ei "chwant i ymddatod,"
A'i daliai rhag esgyn i bant,
Uwch sêr, i glyd fonwes ei Phriod;
Y tenyn a dorwyd gan un
O engyl gosgorddlu 'i Hanwylyd:
Mewn eiliad hi a gafodd ei hun
Mewn hoen ar lan afon y bywyd.

Ei chorph gwael o olwg y byw,
Symudwyd gan gariad yn gryno
I'r 'stafell gysegrodd Mab Duw,
Ac archwyd i engyl ei wylio.
Ystyriaeth o'i helw a'i hedd
Atalio—na—croesaw wir alar;
Nef-berlau yw dagrau ar fedd
Mam dduwiol mor anwyl a hawddgar.

Ein hiraeth a'n hymdrech O boed
Am feddu parodrwydd i'w dylyn;
Ac yna, faint bynag ein hoed,
Cawn angeu yn gyfaill—nid gelyn.
A phan ar y cwmwl y daw
Ein Prynwr, yn Farnydd y bydoedd,
Cawn esgyn i'w gwrdd yn ddifraw,
A byw yn ei gwmni'n oes oesoedd.

Guayacan, Chili. AVONIAN.

PENILLION.

Mawr yw meithder yr ehangder;
Er ei chwilio ar bob llaw
Ni chaf allan ei lydander,
Nid oes terfyn iddo draw.
Hed fy meddwl gwan ar brydiau
Rhwng y sêr gan wibio'n ffol,
Soddi mae yn eigion gwagle,
Braidd y dychwel yn ei ol.

Hed y wenol yn dra chyflym,
Cyflymach yw tywyniad gwawr;
Meddwl dyn a hed mewn eiliad
Heibio i'r haul i bellder mawr;
Heded fyrddiwn o flynyddau
Yn ddiorphwys nos a dydd,
Ni wel derfyn ehangderau,
Mewn canol-bwnc byth y bydd.

Mawr, mawr yw'r Bod sy'n presenoli
Holl eithafoedd anian draw;
Deil y cyfan sy'n bodoli
Ar gleder ei alluog law,
Mawr diderfyn yw ei Hanfod
Myrdd uwchlaw fy neall i;
Dyn gwael cyn haner ei adnabod
A ryfyga ei wneyd yn Dri.

Os yw'n dri, tri Hollalluog,
Tri Hollwybodol hefyd yw,
Tri Hollbresenol, tri Anfarwol;
Hyn a wna dri pherffaith Dduw.
Mae rhai 'n haeru ei fod felly,
Ac eto nad yw ddim ond, un,
Ag iawn ystyried mae'n gwilydd clywed
Fath eiriau gwael o enau dyn.

Os yw un yn Hollalluog,
Mae 'nghred ei fod ar gadarn sail;
Os yw hwn yn Hollbresenol,
Pa anghen sydd wrth allu'r ail?
Dau neu dri yn cydweithredu
I ddwyn ym mlaen waith mawr ei werth,
Ni wna'n galluoedd o'u cysylltu
Ddim chwanegu gradd o nerth.

Un Duw sy'n amgylchu y cyfan,
Oll yn bodoli ynddo Ef,
Yn Awdwr pob peth ond ei hunan,
O'r ddaear i ddiderfyn nef.
Os rhanu wneir y Bod Anfeidrol
Yn dri neu rywbeth mwy nag un,
Ni bydd y rhanau'n Anfeidrolion,
Yn Hollbresenol ni bydd un.

JOHN THOMAS, Awdwr *Cwyn y Cristion.*

EPIGRAM

I'w ddodi ar gauad blwch Tobacco.

Cetyn yw'n hoes medd Catwg,
Nid ŷm ni oll onid y mwg;
Gan hyn os mwg yw'n heinioes,
Da iawn! oni chair dwy oes?
Mygyn o'r cetyn cwta
Wnai o un oes ddwy oes dda.

GORONWY OWEN.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.

At ein Gohebwyr.

DERBYNIWYD: W. T.; E. Cynon; R. J.; C. Ayron; Silex, a J. Davies.

*** Ehedydd, Silex, &c.—Y mae amryw Gyfansoddiadau Barddonol yn ein dwylaw, pa rai, fel yr eiddoch chwi, a fwriadir eu cyhoeddi yn eu tro, yn ol fel y ceir yn gyfleus.

*** S. a Dienw.—Os mynwch ymohebu rhagor â'r YMOFYNYDD, rhoddwch eich enwau priodol yn llawn i ni *yn brivate*.

*** Gwelir fod Pregeth y Cyfarfod Cwarterol wedi cymmeryd i fynu gyfran helaeth o'r rhifyn hwn. Gellir disgwyl mwy o amrywiaeth o hyn allan.

*** Anfoner y Gohebiaethau a phob *Orders*, yn brydlawn, at y Golygydd, cyfeiriedig fel y canlyn :—*Rev. John E. Jones, Unitarian Minister, Bridgend.*